

Papur Pwnc

Diwygiedig Cynllun 2018-2033 Datblygu Lleol

Rhagfyr 2018

Rôl a Swyddogaeth

Papur Trafod Rôl a Swyddogaeth

	Tudalen
1. Cyflwyniad - Diben y Papur hwn.	1
2. Cyflwyno'r cefndir - Portread Gofodol: Sir o Gyferbyniadau.	2
3. Cyfansoddiad y Boblogaeth ac Aelwydydd	4
4. Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLI: Adolygiad seiliedig ar dystiolaeth.	5
5. Ystyriaeth i strategaethau eraill.	11
6. Rôl a Swyddogaeth: Tuag at nodi ardaloedd cymeriad eang.	15

1. Cyflwyniad

Diben y Papur hwn

1.1 Cyhoeddwyd y Papur Trafod Rôl a Swyddogaeth hwn i roi asesiad beirniadol o'r opsiynau gofodol a dosbarthiad twf a nodir yn y Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLI diwygiedig ac ategu'r broses o'u hystyried.

1.2 Mae'r rhan gyntaf o'r Papur hwn yn rhoi trosolwg o'r dystiolaeth gefndir, gan gynnwys adroddiadau monitro'r CDLI, a strategaethau Corfforaethol neu allanol eraill, sydd wedi galluogi'r Awdurdod Lleol i ddeall rôl a swyddogaeth aneddiadau yn y sir. Mae'n nodi'r aneddiadau hynny nad ydynt yn cyflawni'r lefelau twf a fwriedir ar eu cyfer yn y CDLI Mabwysiedig.

1.3 Wrth ymhelaethu ar "berfformiad" aneddiadau o'r fath o safbwynt datblygu, bu cyfle i roi ystyriaeth i ystod lawn o gryfderau a gwendidau tystiolaeth bresennol ar yr hierarchaeth aneddiadau, a hefyd i ystyried ffactorau megis graddfa, capasiti, cyd-destun gofodol / mân wahanïaethau lleol a chymeriad. Mae hyn wedi darparu sail dystiolaeth ar gyfer trafod gyda rhanddeiliaid allweddol a adlewyrchir yn y Papur hwn.

1.4 Mae ail ran y Papur hwn yn ceisio nodi a darparu rhesymeg dros opsiwn dosbarthiad twf y sir o fewn y Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir a sut y mae hon yn trosi'n hierarchaeth aneddiadau a nodir. Bydd yr "archwiliad" uchod yn ei gwneud yn bosibl i'r Papur ddarparu ymarfer "cyflwyno'r cefndir" ehangach o ran rôl a swyddogaeth, ac mae'n mynd ymlaen i fframio trafodaeth ehangach ynglŷn â'r dull mwyaf priodol o ddsbarthu cyfraniad posibl anheddiad o fewn y CDLI diwygiedig.

1.5 Wrth ystyried hierarchaeth aneddiadau ar gyfer y CDLI diwygiedig, mae'r papur hwn yn ystyried y rhesymeg dros fabwysiadu dull ardaloedd cymeriad / clystyrau yn hytrach na'r hyn a ystyriwyd yn draddodiadol trwy ddull 'o'r brig i lawr' yn seiliedig ar wasanaethau a chyfleusterau allweddol.

1.6 Mae dull ardaloedd cymeriad / clwstwr yn ceisio cydnabod nodweddion gofodol cyferbyniol a phriod gyfraniadau aneddiadau unigol yn yr ardaloedd hyn. Byddai cyflawni consensws mewn perthynas â materion o'r fath yn darparu sylfaen gref ar gyfer ennyn perchnogaeth leol ar y Cynllun sy'n ategu datblygiad y Strategaeth a Ffefrir.

2. Cyflwyno'r cefndir


Portread Gofodol: Sir o Gyferbyniadau.

2.1 Mae Sir Gaerfyrddin yn Sir amrywiol gydag economi amaethyddol a thirwedd yr ardaloedd gwledig yn cyferbynnu ag ardal drefol a diwydiannol y de ddwyrain. Fodd bynnag, gan mai Sir wledig yw hi gan fwyaf, mae gan yr Awdurdod Unedol ddwysedd poblogaeth o 78 o bobl i bob cilometr sgwâr yn unig, sy'n golygu mai dim ond Powys, Sir Benfro, Gwynedd a Cheredigion sy'n deneuach eu poblogaeth. Mae hyn yn cymharu â 140 o bobl i bob cilometr sgwâr yng Nghymru gyfan. Mae dosbarthiad y boblogaeth yn fwy amlwg yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin nag ydyw yn ne a dwyrain y Sir lle mae 65% o'r boblogaeth yn byw ar ryw 35% o'r tir.

2.2 Mae'r Sir mewn lleoliad da ar gefnffyrdd yr A40, yr A477 a'r A48. Mae eu cysylltiadau â'r gorllewin yn cysylltu â'r porthladdoedd fferi i Iwerddon, gyda'r M4 yn darparu cyswllt strategol â'r dwyrain. Caiff y cyswllt hwn rhwng y dwyrain a'r gorllewin ei bwysleisio ymhellach gan reilffordd Gorllewin Cymru sy'n ymestyn o Abertawe (a'r rhwydwaith rheilffyrdd ehangach - gan gynnwys Llundain) i Sir Benfro trwy Gaerfyrddin a Llanelli. Tua'r gogledd, mae'r A40 a'r A483 yn arwain i Ganolbarth Cymru, ac yn cael eu hategu gan Reilffordd Calon Cymru.

2.3 Mae Sir Gaerfyrddin yn enwog am ei hamgylchedd naturiol a hanesyddol, a cheir yno amrywiaeth o ddynodiadau. Amaethyddiaeth yw prif nodwedd ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin ac mae'r diwydiant amaeth a ffermio llaeth a defaid yn arbennig yn golygu bod y Sir yn un o'r ardaloedd amaethyddol pwysicaf yng Nghymru.

2.4 Mae'r map isod (Ffigur 1) yn dynodi opsiwn strategol y CDLI mabwysiedig sy'n seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae prif ganolfannau trefol y Sir yn cynnwys Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman / Cross Hands, ac mae cyfran Mae'r aneddiadau hyn yn dangos nodweddion cynaliadwyedd a hygyrchedd, yn enwedig o safbwynt llwybrau trafndiaeth pwysig (gan gynnwys ffyrdd/rheilffyrdd) yn ogystal â gwasanaethau (e.e. gofal iechyd, adwerthu ac addysg). Dyma'r ardaloedd lle mae'r rhan fwyaf o boblogaeth y Sir yn byw.



Ffigur 1: Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig - Diagram Allweddol

2.5 Ar y lefel eilaidd, ceir nifer o aneddiadau sy'n amrywio o ran eu maint ond sy'n aml yn gwneud cyfraniadau nodedig at anghenion a gofynion eu cymuned a'r ardal o'i hamgylch.

2.6 Hefyd, mae gan Sir Gaerfyrddin nifer o bentrefi ac aneddiadau gwledig sy'n hunangynhaliol o safbwynt cyfleusterau a gwasanaethau; fodd bynnag, ceir aneddiadau eraill llai o faint sydd heb y gwasanaethau a chyfleusterau hyn, ac sydd felly'n ddibynnol ar yr aneddiadau mwy hyn.

2.7 Yn yr un modd, o safbwynt hierarchaidd, mae'r canolfannau trefol yn cael eu hategu gan ystod o aneddiadau o wahanol feintiau sy'n gwneud cyfraniad pwysig at gyfansoddiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir. Mae natur amrywiol y cymunedau hyn, o safbwynt eu nodweddion gofodol ac o safbwynt eu rôl a'u swyddogaeth yn gyffredinol, yn eu gwneud yn rhan annatod o'r Sir. Er enghraifft, caiff ardaloedd ôl-ddiwydiannol Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth eu hystyried yn aml yn gadarnleoedd ieithyddol allweddol, tra gall ardaloedd Talacharn / Pentywyn gynnig cyfraniad i'r economi ymwelwyr.

2.8 Ceir hefyd gyfres o aneddiadau sy'n cyflawni rôl drawsffiniol megis Castellnewydd Emlyn a Phont-tyweli. Bydd y math yma o dystiolaeth yn ategu'r dadansoddiad yn nes ymlaen yn y Papur hwn.

3. Cyfansoddiad y Boblogaeth ac Aelwydydd

3.1 Gyda phoblogaeth o 186,452 yn 2017, mae Sir Gaerfyrddin yn gartref i oddeutu 6% o gyfanswm poblogaeth Cymru, sy'n golygu mai dyma'r pedwerydd Awdurdod Unedol mwyaf yng Nghymru (ar ôl Caerdydd, Abertawe a Rhondda Cynon Taf).

3.2 Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gorchuddio tua 9% o Sir Gaerfyrddin, ac amcangyfrifir bod 1% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn byw yn y Parc Cenedlaethol.

3.3 Ers 2001, bu cynnydd o +12,800 o bobl ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin, cynnydd o 7.4% mewn un mlynedd ar bymtheg. Cofnodwyd twf blynyddol uwch yn y boblogaeth (+0.7% y flwyddyn ar gyfartaledd) cyn 2008, gyda thwf blynyddol sy'n amlwg yn is yn cael ei gofnodi wedi hynny (0.2% y flwyddyn ar gyfartaledd). Gellir priodoli cyfansoddiad y cynnydd ym mhoblogaeth y sir i'r canlyniadau canlynol:

- Mae Twf Naturiol yn negyddol – mae mwy o bobl yn marw nag sy'n cael eu geni;
- Mewnlifiad o ganlyniad i ymfudiad mewnol fu prif ysgogydd y newid yn y boblogaeth;
- Roedd ymfudiad net yn uchel tan 2008, ac yna'n isel. Dechreuodd gynyddu eto dair blynedd yn ôl gyda mewnlifiad net yn 2016/2017 o 873;
- All-lifiad net mawr ymhlith pobl 15-19 oed wrth iddynt fynd i'r brifysgol mewn ardal arall gyda llif bach o ran pobl 20-24 oed yn dychwelyd;
- Cofnodir mewnlifiad net ymhlith yr holl grwpiau oedran hŷn (65+), sy'n cyfrannu at broffil Sir Gaerfyrddin o ran poblogaeth sy'n heneiddio;
- Cynyddodd canran y bobl +65 oed o 19% i 23%;
- Mae cyfartaledd ymfudiad rhyngwladol yn +291 o bobl ers 2001/2002.

3.4 Wrth ystyried tueddiadau'r boblogaeth ac aelwydydd yn y gorffennol a'u perthynas o ran ategu amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol, mae'r papur Poblogaeth a Dosbarthiad yn nodi'r rhesymeg a'r fframwaith ar gyfer ystyried ffigwr gofyniad tai a ffefrir ar gyfer Sir Gaerfyrddin o fewn y CDLI diwygiedig. Bydd y sail dystiolaeth hon o gymorth i ystyried y fframwaith aneddiadau a dosbarthiad twf tai ym mhob un o'r clystyrau hefyd.

4 Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLI: Adolygiad seiliedig ar dystiolaeth.

4.1 Bydd yr adran hon yn cynnal adolygiad o'r dystiolaeth, yn anad dim o ran darparu tai a chyflogaeth ac fe'i hategir gan gynnwys Adroddiadau Monitro Blyneddol y CDLI, y Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai a'r Adolygiad Tir Cyflogaeth.

4.2 Mae'r hierarchaeth o aneddiadau a nodir yn y CDLI ar draws pedair haen sy'n cynnwys tair Ardal Dwf (Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman / Cross Hands), chwe Chanolfan Wasanaethau, un ar ddeg o Ganolfannau Gwasanaethau Lleol a 42 o Gymunedau Cynaliadwy sy'n cynnwys rhyw 135 o bentrefi.

4.3 Fel a nodir mewn rhannau eraill o'r Papur hwn, roedd yr hierarchaeth yn ceisio adlewyrchu priod safle aneddiadau yn rhinwedd eu graddfa, eu rôl a'u swyddogaeth a chafodd hyn ei ategu gan fatrics sgorio a oedd yn canolbwyntio ar wasanaethau a chyfleusterau allweddol, ynghyd â nodweddion amgylcheddol. Roedd datblygiadau wedi'u dosbarthu ar draws pob un o'r aneddiadau hyn i gyd; fodd bynnag, i grynhoi, mae llawer o aneddiadau wedi datblygu'n gyflymach na'i gilydd. Gallai hyn fod i'w briodoli i'r ffaith bod y farchnad tai a chyflogaeth yn fwy ffyniannus mewn rhai aneddiadau, neu fod y safle anghywir wedi'i ddyrannu yn yr anheddiad hwnnw.

Darparu Tai Safleoedd Mawr


4.4 Dengys Tabl 1 nifer yr unedau preswyl sydd wedi cael eu cwblhau yn ystod cyfnod y CDLI hyd at a chan gynnwys y flwyddyn 2017/2018 ar safleoedd mawr (>5 uned).

Haen	2006/2008	2008/2009	2009/2010	2010/2011	2011/2012	2012/2013	2013/2014	2014/2015	2015/2016	2016/2017	2017/2018	Cyfanswm
Haen 1	304	182	160	356	195	242	303	305	399	320	264	3030
Haen 2	166	30	27	54	14	15	11	62	29	10	5	423
Haen 3	76	24	10	25	17	20	27	30	13	57	56	355
Cymunedau Cynaliadwy	101	27	103	128	50	40	38	32	75	39	81	714
Cyfanswm	647	263	300	563	276	317	379	429	516	426	406	4522

Tabl 1: Unedau Preswyl a Gwblhawyd ar Safle Mawr

4.5 Roedd nifer y tai a gwblhawyd yn 2008/09 yn isel, sef 263 o unedau; fodd bynnag mae wedi amrywio rhwng 379 a 516 o unedau yn y 5 mlynedd ddiwethaf. Ers dyddiad sylfaen y CDLI mabwysiedig yn 2006, mae nifer yr unedau a gwblhawyd ar safleoedd â +5 yn 411 o unedau.

4.6 O ran dosbarthiad unedau a gwblhawyd, mae ffigur 1 yn dangos cyfanswm yr unedau preswyl a gwblhawyd ar safleoedd mawr ers 2007. Roedd 67% o'r unedau a gwblhawyd o fewn yr Ardaloedd Twf, 9% yn Haen 2, 8% yn Haen 3, tra bo canran yr unedau a gwblhawyd mewn Cymunedau Cynaliadwy'n 16%.



Ffigur 2: Cyfanswm yr Unedau Preswyl a Gwblhawyd ar Safleoedd Mawr ers 2007 yn ôl Haen

4.7 Mae'r gymhariaeth rhwng dosbarthiad unedau a gwblhawyd a'r dosbarthiad a oedd wedi'i bennu yn y CDLI fel a ganlyn:

	Canran y tai a gwblhawyd ar y cyfan.	Canran yr holl ddyraniadau a oedd wedi'u pennu yn y CDLI.
Haen 1	67%	62.4%
Haen 2	9%	10.2%
Haen 3	8%	12.5%
Cymunedau Cynaliadwy	16%	14.9%

Tabl 2: Dosbarthiad o unedau a gwblhawyd o bob haen

4.8 Ar y cyfan, mae'r lefelau cwblhau yn Haen 1 ac mewn Cymunedau Cynaliadwy wedi bod yn gymesur uwch na'r hyn a oedd wedi'i ddyrannu yn y CDLI. Mae'r tabl hefyd yn dangos bod perfformiad Haen 2 a Haen 3 yn gymesur is na'r hyn a oedd wedi'i ddyrannu yn y CDLI.

4.9 Yn y 3 blynedd flaenorol (2015-2018) dim ond 44 o anheddau ar safleoedd mawr sydd wedi'u cwblhau mewn aneddiadau Haen 2, tra bo 126 o anheddau wedi'u cwblhau yn Haen 3. Mae hyn yn cymharu â'r 195 o anheddau a gwblhawyd mewn Cymunedau Cynaliadwy.

Caniatadau Cynllunio


4.10 Caiff patrwm y tai a gwblhawyd a nodir uchod ei adlewyrchu hefyd yn nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd ar safleoedd tai a oedd wedi'u dyrannu. Yn yr ail Adroddiad Monitro Blynyddol 2016-2017, roedd cyfran fawr o'r caniatadau yn y Cymunedau Cynaliadwy o'i gymharu ag aneddiadau Haen 2 a 3; fodd bynnag, ar y cyfan nid oes tuedd gyson o un flwyddyn i'r llall.

	Targed yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol	Caniatadau 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016	Caniatadau 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2017	Caniatadau 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2018
Ardaloedd Twf	62%	67.3%	43.8%	64.4%
Canolfannau Gwasanaethau	10%	3.6%	9.5%	10.3%
Canolfannau Gwasanaethau Lleol	12%	17.1%	0.7%	15.7%
Cymunedau Cynaliadwy	15%	15.2%	46%	9.6%

Tabl 3: Unedau Preswyl y Rhoddwyd Caniatâd Iddynt yn ôl Haen ar Safleoedd Tai wedi'u Dyrannu (%)

Safleoedd Bach

4.11 Dim ond am y tair blynedd ddiwethaf y mae nifer yr unedau preswyl ar safleoedd bach (safleoedd â <5 uned) wedi bod yn cael ei fonitro; felly, mae'n anodd canfod unrhyw duedd ar hyn o bryd. Mae'r data'n dangos patrwm ychydig yn wahanol i'r un a welir ar safleoedd mawr, gan fod y mwyafrif o'r unedau a gwblhawyd wedi'u lleoli yn y Cymunedau Cynaliadwy. Mae patrwm tebyg o unedau a gwblhawyd yn bodoli o fewn Haenau 2 a 3 ar gyfer unedau a gwblhawyd ar safleoedd bach a mawr.



Ffigur 3: % yr Unedau Preswyl a Gwblhawyd ar Safleoedd Bach ers 2016 yn ôl Haen

Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS)

4.12 Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yw'r mecanwaith i awdurdodau cynllunio lleol ddangos bod ganddynt gyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai trwy ddarparu datganiad y cytunwyd arno o argaeledd tir ar gyfer tai at ddibenion cynllunio datblygu a rheoli datblygu¹. Mae gan Sir Gaerfyrddin gyflenwad 3.8 mlynedd o dir ar gyfer tai yn Astudiaeth 2018. Mae pob safle fewn yr astudiaeth wedi'i gategoreiddio yn ôl pryd y mae'r safle'n debygol o ddod ymlaen i'w ddatblygu². Mae Tabl 4 yn darparu crynodeb o'r data, yn ôl haen, o Astudiaeth 2018.

Haen	Unedau a Adeiladwyd Ers yr Astudiaeth Ddiwethaf	Unedau sy'n Weddill	Categori 1	Categori 2	Categori 3	Categori 4
Cyfanswm Haen 1	264	5873	109	3098	0	2666
AD1	58	1427	15	499	0	913
AD2	132	2697	63	1491	0	1143
AD3	74	1749	31	1108	0	610
Cyfanswm Haen 2	5	1463	2	980	0	481
Cyfanswm Haen 3	56	1569	30	715	0	824
Cymunedau Cynaliadwy	81	1490	30	988	0	472

Tabl 4: Crynodeb o'r Cyfrifiadau o'r Cyflenwad o Dir yn ôl Haen (ffynhonnell: Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018)

4.13 Gan edrych ar gyfanswm yr unedau sy'n weddill yn yr Astudiaeth, mae 43% yn rhai Categori 4, tra bo 57% yn perthyn i'r cyflenwad 5 mlynedd. Mae pob un o'r pedair haen yn dangos patrymau gwahanol o ddsbarthiadau, fel a drafodir isod:

- **Haen 1 (Ardaloedd Twf)** – mae 55% o'r unedau sy'n weddill ar gyfer yr haen yn perthyn i'r cyflenwad 5 mlynedd. Mae 64% o'r unedau sy'n weddill yn AT1 (Caerfyrddin) yn rhai Categori 4. O'r unedau tai yng Nghategori 4, mae 91% o'r unedau hyn yn perthyn i ddau

¹ Nodyn Cyngor Technegol 1 – Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai, Llywodraeth Cymru (2015)

² • Categori 1: Safleoedd neu'r camau ar safleoedd sy'n cael eu hadeiladu (sy'n ymwneud dim ond â'r ardal lle mae gwaith adeiladu ar y gweill).

• Categori 2: Safleoedd neu'r camau ar safleoedd lle gall datblygu naill ai ddechrau ar unwaith neu lle mae'r cyfyngiad ar ddatblygu'n debygol o gael ei godi fel bod amser rhesymol i anheddau gael eu cwblhau o fewn 5 mlynedd.

• Categori 3: Safleoedd neu gamau ar safleoedd lle mae Grŵp yr Astudiaeth yn cytuno nad yw'n hyfyw'n ariannol datblygu'r safle oherwydd amodau'r farchnad, ond sydd fel arall heb gyfyngiadau. (Er na fydd safleoedd Categori 3 yn rhan o'r cyflenwad 5 mlynedd, gall y broses o'u hadnabod gynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr a thirfeddianwyr i ddod o hyd i gyfleoedd i wella hyfywedd safleoedd a'r gallu i'w cyflawni.) Safleoedd neu'r camau ar safleoedd lle mae datblygu'n annhebygol o fewn 5 mlynedd yn rhinwedd cyfyngiadau ffisegol mawr neu gyfyngiadau eraill fel a gytunwyd gan Grŵp yr Astudiaeth.

safle – Gorllewin Caerfyrddin a Phenymorfa. Mae hyn felly'n camystumio'r darlun cyffredinol o argaeledd dyraniadau tai yng Nghaerfyrddin.

Mae 42% o'r unedau sy'n weddill yn AT2 yn rhai Categori 4, ac mae 35% o'r unedau sy'n weddill yn AT3 (ardal Rhydaman/Cross Hands) yn rhai Categori 4.

- **Haen 2 (Canolfannau Gwasanaethau)** – mae 67% o'r unedau sy'n weddill yn perthyn i'r cyflenwad 5 mlynedd, ac mae 33% o'r unedau sy'n weddill yn rhai Categori 4.
- **Haen 3 (Canolfannau Gwasanaethau Lleol)** – mae 47% o'r unedau sy'n weddill yn perthyn i'r cyflenwad 5 mlynedd, ac mae 35% o'r unedau sy'n weddill yn rhai Categori 4.
- **Cymunedau Cynaliadwy** – mae 68% o'r unedau sy'n weddill yn perthyn i'r cyflenwad 5 mlynedd, ac mae 32% o'r unedau sy'n weddill yn rhai Categori 4.

4.14 Aneddiadau Haen 1 yw'r rhai sydd â'r ganran uchaf o unedau yng Nghategori 4. Rhan o'r rheswm dros hyn yw bod nifer o safleoedd mwy sy'n annhebygol o gael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod o bum mlynedd, er enghraifft Gorllewin Caerfyrddin, Penymorfa (Caerfyrddin), Fferm Tirychen (Rhydaman), Gwaith Brics Emlyn (Penygroes), Doc y Gogledd (Llanelli), Llys y Bryn (Llanelli) a Chefncaeau (Llanelli).

4.15 Mae Haen 2 (Canolfannau Gwasanaethau) a Haen 3 (Canolfannau Gwasanaethau Lleol) yn dangos tuedd dros y blynyddoedd diwethaf o gyfraddau cwblhau isel. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd Haen 2 yn cyflawni mwy o unedau yn y 5 mlynedd nesaf gan fod 67% o'r unedau sy'n weddill yn perthyn i'r cyflenwad 5 mlynedd, lle mae'r gwaith i ddatblygu safleoedd ym Mhorth Tywyn, Pen-bre a Hendy Gwyn ar Daf yn debygol o ddechrau.

Cyflawni Safleoedd Cyflogaeth

4.16 Mae'r CDLI mabwysiedig cyfredol yn dyrannu 111.13 Ha o dir at ddibenion cyflogaeth. Lleoliadau yn nhair Ardal Twf Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman / Cross Hands sy'n gwneud y cyfraniadau mwyaf at gyfansymiau arwynebedd safleoedd gan mai'r ardaloedd hyn yw'r rhai â'r mwyaf o ddyraniadau cyflogaeth yn y CDLI oherwydd eu lleoliadau cynaliadwy. Caiff yr ardaloedd twf hyn eu hunain eu nodi yn y Strategaeth a Ffefrir a geir yma fel ardaloedd pwysig ar gyfer twf economaidd parhaus dros gyfnod y CDLI diwygiedig.

4.17 Ers dyddiad sylfaen y CDLI, mae 30.06 Ha o dir wedi cael ei gymryd ar y dyraniadau tir cyflogaeth, gyda safleoedd strategol yn ardaloedd twf Cross Hands a Llanelli yn gwneud cyfraniadau sylweddol at gyflawni yn hyn o beth.

4.18 Yn ychwanegol at y dyraniadau arfaethedig, mae safleoedd cyflogaeth presennol yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddarparu cyflogaeth trwy, er enghraifft, gweddnwid tynged busnesau ac adfer safleoedd sy'n segur neu a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Roedd cyfanswm arwynebedd safleoedd tir a adnabuwyd at ddibenion cyflogaeth presennol yn Adolygiad Tir Cyflogaeth 2018 yn 445 Ha. Ers mabwysiadu'r CDLI ym mis Rhagfyr 2014, rhoddwyd caniatadau cynllunio ar 8.43 hectar o dir mewn lleoliadau o'r fath.

4.19 Mae'r tabl canlynol yn dangos y gyfradd feddiannu gronol ar gyfer tir cyflogaeth arfaethedig a phresennol ym mhob Haen, fel a nodir yn Adolygiad Tir Cyflogaeth 2018.

Lleoliad	Cyfanswm Arwynebedd (Ha) yn 2018	2018 (%)	Cyfradd feddiannu (Ha dros gyfnod y Cynllun)	% Meddiannu
Ardaloedd Twf (Haen 1):			30.11	62
Caerfyrddin	51.72	9	-	
Llanelli	249.16	45	-	
Rhydaman / Cross Hands	122.90	22	-	
Canolfannau Gwasanaethau (Haen 2)	61.37	11	9.07	18
Canolfannau Gwasanaethau Lleol (Haen 3)	40.38	7	6.19	13
Cymunedau Cynaliadwy (Haen 4)	30.35	6	3.55	7
Cyfanswm ar gyfer y Sir	556	100	49	100

Tabl 5

5. Ystyriaeth i strategaethau eraill

5.1 Mae paratodau cynllun datblygu wedi ei seilio ar ddealltwriaeth o'u perthynas ag amrywiaeth o Gynlluniau a strategaethau. Yn sgil hyn, mae datblygiad hierarchaeth aneddiadau cadarn yn adlewyrchu, i raddau amrywiol, effaith y strategaethau yma ar rôl a swyddogaethau aneddiadau.

5.2 Mae'r canlynol yn gosod rhai o'r strategaethau presennol a datblygol sy'n effeithio ar ddatblygiad y Strategaeth a Ffefrir. Modd bynnag, ni ddylai hyn cael ei hystyried i fod yn gynhwysfawr gan fod CDLI datblygol yn ymateb i strategaethau datblygol, tra bydd rhai newydd hefyd yn dod i'r amlwg yn ystod paratodau'r CDLI diwygiedig.

Polisi Cynllunio Cymru

5.3 O ran polisi cenedlaethol, mae'r sbardunau perthnasol hynny'n cynnwys Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (*Argraffiad 9 – Tachwedd 2016*). Mae PCC yn nodi polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru (LIC). Ei amcan canolog yw hybu a darparu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae Cynllun Gofodol Cymru – Pobl, Lleuedd, Dyfodol (Diweddariad 2008) yn darparu cyd-destun polisi troswaol ar gyfer cynllunio gofodol a datblygu yng Nghymru trwy sefydlu blaenoriaethau cenedlaethol trawsbynciol. Mae Sir Gaerfyrddin wedi'i lleoli o fewn tair ardal a nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru.

5.4 Hefyd, cyfeirir at gynnwys Polisi Cynllunio Cymru - Argraffiad 10 (Rhagfyr 2018) sy'n gosod pwyslais sylweddol ar rôl cynllunio i greu naws am le. Mae'r ffocws ar greu lleoedd gyda pherthynas uniongyrchol gyda rôl a swyddogaethau aneddiadau yn enwedig trwy gynaliadwyedd a hybu llesiant yng nghymunedau. Cyfrifoldeb cynlluniau datblygu yw cyfrannu at greu llefydd cynaliadwy a gwella llesiant.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

5.5 Fe wnaeth Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddarpariaeth ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC). Bydd y Fframwaith yn cael ei baratoi gan Lywodraeth Cymru a bydd yn pennu fframwaith defnydd tir 20 mlynedd i Gymru, a fydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru sy'n bodoli ar hyn o bryd. Unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu, bydd yn eistedd ochr yn ochr â PCC ac yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y CDLI. Cafodd yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y Fframwaith ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori ym mis Gorffennaf 2018 a disgwylir i fersiwn ddrafft o'r FfDC gael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019 ac i'r Fframwaith gael ei fabwysiadu wedyn ym mis Medi 2020.

5.6 Bydd y FfDC yn gosod llawer o'r cyd-destun am sut bydd y system cynllunio datblygu yn ymateb ac yn darparu ar lefel rhanbarthol a lleol. Er ei bod dal yn datblygu ac nid yw'n effeithio'n uniongyrchol ar y gwaith presennol ynghylch rôl a swyddogaethau, bydd ei chynnydd a chanlyniadau yn cael ei monitro ac ymateb iddo.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

5.7 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fel cynrychiolydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi Cynllun Llesiant. Mae amcanion llesiant wedi cael eu datblygu gan y Cyngor. Nodir hefyd bod Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10 (yr ymgynghorir yn ei gylch ar hyn o bryd) yn ceisio fframio ystyriaeth i gynllunio defnydd tir yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Ceir pwyslais cryf ar ddulliau creu lleoedd yn hytrach na dull "sydd â ffocws ar niferoedd" o fynd ar drywydd datblygu preswyl.

5.8 Bydd paratoi'r CDLI nawr, ac yn y dyfodol, yn parhau i adnabod cynnwys y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac mae hyn wedi ei cydnabod ac integreiddio yn rhan o baratoadau'r Strategaeth a Ffefrir a'i fframwaith aneddiadau.

Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

5.9 Ar lefel ranbarthol, mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe sydd hefyd yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Sir Benfro, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Llofnodwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe ym mis Mawrth 2017. Honnir y bydd y fargen yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal, yn rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol, ac yn creu bron i 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf. Mae 2 brosiect penodol wedi'u nodi ar gyfer Llanelli a Chaerfyrddin.

5.10 Mae'r effeithiau economaidd a demograffig sy'n codi o ganlyniad i fuddsoddiadau o'r Fargen Ddinesig wedi eu hystyried yn y Strategaeth a Ffefrir. Mae hefyd yn glir y bydd yna fuddion anochel ar draws cymunedau o ganlyniad. Yn sgil hyn, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn adnabod y ffocws ar brosiectau yn y Prif Ganolfannau, ond mae hefyd yn cydnabod y gall yna fod effeithiau positif ar yr aneddiadau sy'n is yn yr hierarchaeth. Bydd y Cynllun felly yn edrych i ymateb i'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil paratoadau fersiwn adneuol y CDLI, megis darpariaeth ar gyfer busnesau bychain y gall godi o sector y diwydiannau creadigol.

Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin – 2015-2030

5.11 Mae cyhoeddi Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin = 2-15-2030 gan y Cyngor. Emllyn Dole, Arweinydd Cyngor Sir Gaerfyrddin, yn darparu cyfle

gweddnewidiol i achub ar gyfleoedd ar gyfer twf a buddsoddi. Ei nod yw hybu'r economi leol a chreu 5,000 o swyddi ledled y Sir erbyn 2030. Er ei bod yn bennaf yn thematig o ran natur, mae dimensiwn gofodol iddi o ran amlygu safleoedd strategol a 6 phrosiect trawsnewidiol allweddol. Mae'r papur rôl a swyddogaethau a'r Strategaeth a Ffeirir yn adnabod ei hamcanion strategol ac yn cydnabod y buddsoddiad a'r potensial economaidd.

Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin

5.12 Yn y cynllun "Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf (2018)", mae'r Cyngor wedi nodi bron i 100 o brosiectau, cynlluniau neu wasanaethau sy'n flaenoriaeth y mae'n dymuno'u cyflawni dros y pum mlynedd nesaf i wneud Sir Gaerfyrddin "y lle gorau i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef". Ceir Strategaeth Gorfforaethol newydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y cyfnod 2018-2023 – "Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin

Rhaglen Moderneiddio Addysg

5.13 Yn 2005, mabwysiadodd y Cyngor ei Raglen Moderneiddio Addysg (RhMA). Nod y RhMA yw sicrhau bod y rhwydwaith o ysgolion yn diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol, a'i fod yn gwneud hynny mewn ffordd strategol ac mewn ffordd sy'n effeithiol yn weithredol. Trwy wneud hyn, mae'r RhMA yn nodi gofynion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol i sicrhau darpariaeth addas a digonol o ran lleoedd mewn ysgolion ac mae'n nodi cynlluniau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol mewn modd cydgysylltiedig a strwythuredig.

5.14 Mae RhMA'r Cyngor yn ddull uchelgeisiol a chynyddol o ddarparu cyfres o adnoddau o safon uchel ar draws y Sir. Wrth ddatblygu'r papur rôl a swyddogaethau, mae sylw wedi ei rhoi i'r gwaith sydd eisoes wedi ei gwneud hyd yn hyn a'r hyn maent yn gwybod sydd wedi ei raglenni.

Cynllun Cyflawni Cartrefi Fforddiadwy

5.15 Mae'r Cynllun Cyflawni Cartrefi Fforddiadwy 2016 – 2020 yn nodi gweledigaeth pum mlynedd y Cyngor ar gyfer cynyddu i'r eithaf y cyflenwad o gartrefi fforddiadwy yn y sir. Bydd y rhaglen yn cyflawni dros 1000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol dros bum mlynedd i ddechrau, a bydd cyfanswm y buddsoddiad yn mynd y tu hwnt i £60m. Ei diben yw darparu manylion sut a ble y bydd mwy o gartrefi'n cael eu cyflawni a pha adnoddau fydd yn cael eu defnyddio a sut y gellid cael gafael ar fwy o bosibl. Mae'n targedu cymorth ble mae'r angen mwyaf, mewn ardaloedd trefol a gwledig.

5.16 Mae'r Cynllun Cyflawni Cartrefi Fforddiadwy yn rhannu'r sir yn bedair ardal weithredu, ac mae gan bob un ohonynt strategaeth gyflawni. Mae'r ardaloedd gweithredu'n cynnwys:

- Ardal Weithredu Caerfyrddin a'r Gorllewin
- Ardal Weithredu Trefi Gwledig a Marchnad Sir Gaerfyrddin
- Ardal Weithredu Rhydaman a Dyffryn Aman
- Ardal Weithredu Llanelli a'r Cylch

5.17 Mae ardal Llanelli a'r Cylch wedi'i hadnabod fel yr un â'r angen mwyaf am dai. Mae hyn yn dilyn patrwm syml sy'n golygu bod yr angen ar ei fwyaf yn ardaloedd mwyaf poblog y sir. Ers mis Ebrill 2016, o'r 532 o gartrefi fforddiadwy sydd wedi cael eu cyflawni yn Sir Gaerfyrddin, mae 41% ohonynt wedi bod yn Ardal Llanelli a'r Cylch.

5.18 Wrth ddarparu cartrefi fforddiadwy i ddiwallu'r angen am dai, bydd lleoliad aneddiadau o fewn yr hierarchaeth aneddiadau'n ystyriaeth bwysig. Hefyd, bydd ffactorau cynaliadwyedd megis darparu cludiant cyhoeddus, agoswydd at ddarpariaeth cyflogaeth a lleihau'r angen am siwrneiau mewn ceir yn arwyddocaol i ategu elfennau ac amcanion eraill y CDLI diwygiedig.

Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

5.19 Ceir pwyslais corfforaethol cynyddol ar ddatblygu dealltwriaeth am gyfraniad posibl ardaloedd gwledig, ac mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael ei sefydlu. Gall y Papur hwn gynnig cyfleoedd i gyfrannu tuag at eu trafodaethau fel rhan o adolygiad lefel uchel.

6 Rôl a Swyddogaeth: Diffinio Clystyrau

6.1 Mae'r Adran hon yn ceisio ategu'r dadansoddiad uchod a hybu'r broses o ddatblygu'r opsiynau gofodol trwy adnabod ardaloedd cymeriad neu glystyrau eang.

6.2 Wrth ystyried yr opsiynau gofodol a'r fframwaith aneddiadau ar gyfer y CDLI diwygiedig, mae'r Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir yn adnabod cyfres o glystyrau daearyddol sy'n ategu hierarchaeth o aneddiadau. Mae'r dull hwn yn cydnabod rôl a swyddogaeth aneddiadau ar lefel y sir gyfan ac yn lleol, o fewn eu priod glwstwr eu hunain. Yn hyn o beth, mae'r modd y darperir twf ac y dyrennir aneddiadau i bob clwstwr yn ymatebol i anghenion yr anheddiad hwnnw, ac yn adeiladu ar natur amrywiol cymunedau'r Sir.


6.3 Bydd mabwysiadu'r dull hwn sy'n seiliedig ar glystyrau yn groes i'r disgwyliadau "o'r brig i lawr" ac "a osodir" ar aneddiadau mewn dull hierarchaidd sir-gyfan traddodiadol. Mae Cynlluniau Datblygu blaenorol ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi adnabod y fframwaith aneddiadau yn seiliedig ar fatrics sgorio o wasanaethau a chyfleusterau, ac mae'r rhai â sgôr uwch wedi tueddu i gael mwy o'r datblygiadau a ddyrennir. Fodd bynnag, mae'r Adolygiad Blynnyddol o'r CDLI ac Adroddiadau Monitro Blynnyddol y CDLI wedi nodi bod y ffordd fecanyddol hon o briodoli aneddiadau i haenau o fewn yr hierarchaeth, a dosbarthu twf o fewn yr haenau hynny, wedi cyfyngu ar y potensial ar gyfer Sir Gaerfyrddin a'i haneddiadau. Mae'r Drafft o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) yn gosod pwyslais cryf ar ddulliau creu lleoedd yn hytrach na dull "sydd â ffocws ar niferoedd" o fynd ar drywydd twf datblygu. Felly, mae ystyried clystyrau daearyddol fel y fframwaith aneddiadau ar gyfer y Sir yn ddull mwy hyblyg, ac mae o gymorth i gysoni amrywiannau mewn disgwyliadau rhwng aneddiadau sy'n draddodiadol wedi bod ar yr un haen yn hierarchaeth y CDLI.

6.4 Gellir gweld enghraifft yn y CDLI mabwysiedig o ddau anheddiad Haen 2 sy'n cyflawni rolau gwahanol trwy gymharu Porth Tywyn â Llanymddyfri. A hwythau wedi'u lleoli mewn rhannau gwahanol o'r Sir, mae gan y ddau anheddiad rôl bwysig yn lleol. Gellir dadlau bod Llanymddyfri mewn gwirionedd yn cyflawni ei rôl naturiol yng ngogledd y Sir, trwy ddarparu swyddogaeth canolfan wasanaethau ar gyfer y dref ac aneddiadau o'i hamgylch. Fodd bynnag, o safbwynt twf tai, mae wedi perfformio'n wael o ran cyflawni cartrefi newydd.

6.5 I'r gwrthwyneb, mae'n rhesymegol bod Porth Tywyn, o ystyried ei chyd-destun trefol ac ôl-ddiwydiannol gwahanol, yn cyflawni rôl wahanol – gyda phwyslais arbennig ar ddatblygu

ac adfywio yn yr Harbwr. Mae enghreifftiau o'r fath yn wahanol hefyd o ran nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

6.6 Gellir dadlau y byddai'n naturiol disgwyl i anheddiad fel Porth Tywyn gyflawni lefel o ddatblygu sy'n wahanol i Lanymddyfri, er enghraifft. Nid yw hyn yn diystyru pwysigrwydd Llanymddyfri; mae'n syml yn cydnabod bod y ddwy ardal yn y Sir yn wahanol yn ofodol ac yn swyddogaethol a bod eu hadnabod ar yr un haen mewn hierarchaeth yn rhy syml. Byddai adnabod clystyrau daearyddol yn adlewyrchu perthynas ochrol a chyflenwol rhwng yr ardaloedd diffiniedig a'r aneddiadau ynddynt.



Ffigur 4 – Strategaeth a Ffeirir Cyn Adneuo Ddrafft yn dangos y 6 clwstr

6.7 Mae Ffigur 4 uchod yn dangos y clystyrau a adnabuwyd o fewn y Drafft o'r Strategaeth a Ffeirir. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u rhannu'n 7 clwstr daearyddol, y mae gan bob un ohonynt brif ganolfan neu ganolfan wasanaethau sy'n cefnogi'r aneddiadau eraill. Caiff y rhesymeg dros adnabod y clwstr a'r prif ganolfannau ynddo'u hystyried isod mewn mwy o fanylder. Y rhain yw:

- Caerfyrddin a'i hardaloedd gwledig
- Llanelli ac Ardal De y Gwendraeth

- Amman a Gwendraeth Uchaf
- Teifi
- Dyffryn Uchaf yTywi
- Gorllewin Sir Gâr

Clwstr 1 – Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig

6.8 Mae'r clwstr hwn yn ganolog i'r Sir a'r rhanbarth, ac mae wedi'i leoli ar gyfres o lwybrau priffyrdd a rheilffyrdd strategol sydd wedi'u canoli ar dref farchnad hanesyddol Caerfyrddin. Fel canolfan ranbarthol gyda'i swyddogaethau cysylltiedig, mae Caerfyrddin yn dal i fod yn ffocws ar gyfer cyflawni cartrefi a swyddi newydd a hefyd fel canolfan fanwerthu fywiog, ac mae cyfleoedd yn y dyfodol yn debygol o ganolbwyntio ar ddarparu ystod a chymysgedd ehangach o safleoedd datblygu. Yn amgylchynu'r dref mae nifer o bentrefi gwledig sydd wedi'u cysylltu'n dda.

6.9 Ymwelir yn eang â'r ardal ac mae ganddi nifer o atyniadau twristaidd gan gynnwys Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne, Coedwig Brechfa sy'n cynnig llwybrau beicio mynydd a cherdded, Rheilffordd Stêm Gwili, a thraeth a chastell Llansteffan.

Caerfyrddin

Prif Ganolfan –

6.10 Mae Caerfyrddin yn dref farchnad fywiog a ffyniannus, mewn lleoliad cynaliadwy ar gyffordd yr A48 a'r A40. Hefyd, mae cyswllt rheilffordd rhwng Llundain ac Abergwaun yn sicrhau ei bod yn gweithredu fel y porth strategol yng Ngorllewin Cymru. Fel prif ganolfan weinyddol ar gyfer y rhanbarth a Sir Gaerfyrddin, mae'r dref yn gyflogwr pwysig yn y Sir ac yn gwasanaethu fel canolfan fanwerthu ranbarthol.

6.11 Mae natur gynaliadwy Caerfyrddin a'i chapasiti ar gyfer twf yn tanlinellu pwysigrwydd y dref a bydd yn sicrhau ei rôl barhaus fel canolfan ranbarthol ar gyfer cyflogaeth, manwerthu, tai, iechyd, a darpariaeth iechyd

6.12 Mae'r rôl amlwg hon ar gyfer Caerfyrddin wedi cael ei hatgyfnerthu yng Nghynllun Gofodol Cymru sy'n cydnabod bod y dref yn allweddol o ran cysylltu tair ardal yn y Cynllun Gofodol, sef Bae Abertawe, Sir Benfro – Yr Hafan a Chanol Cymru.

6.13 Fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe mae gan Gaerfyrddin un o'r prif brosiectau newydd yn Sir Gaerfyrddin, sef Yr Egin – prosiect y diwydiannau creadigol, sydd wedi'i leoli ar bwys y Brifysgol yng Nghaerfyrddin.

Cymeriad a Phoblogaeth

6.14 Mae'r afon Tywi'n rhannu'r dref, gyda nifer o'r ardaloedd isel wedi'u lleoli yn y parthau perygl llifogydd. I'r de o'r afon, mae'r tir yn codi ym Mhensarn a Llangynnwr. Mae rhan ogleddol Caerfyrddin yn codi'n raddol wrth i'r ardal drefol ymestyn o ganol y dref, sy'n cynnwys rhan hŷn y dref a'r ardaloedd mwy trwchus eu poblogaeth. Mae llawer o'r ardaloedd yng nghanol y dref wedi'u lleoli mewn ardaloedd cadwraeth.

6.15 Mae Nant-y-Ci wedi'i leoli ar ochr orllewinol Caerfyrddin hefyd. Mae datblygu diweddar yn Nant-y-Ci yn cynnwys adleoli'r farchnad amaethyddol o ganol y dref ac unedau eraill sy'n arbenigo mewn amaethyddiaeth. Mae'r cae sioe'n denu digwyddiadau amrywiol trwy gydol y flwyddyn hefyd. Mae gan y dref (heb gynnwys Abergwili a Llangynnwr) boblogaeth o 14,424 (Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2016, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol), sy'n cyfateb i tuag 8% o gyfanswm poblogaeth Sir Gaerfyrddin.

6.16 Mae nifer o bentrefi llai wedi'u lleoli ar bwys y dref – mae Abergwili'n gorwedd i'r dwyrain, Llangynnwr i'r de, Llanllwch a Travellers Rest i'r Gorllewin a Threfychan i'r gogledd.

Darpariaeth Manwerthu

6.17 Mae Caerfyrddin yn dref farchnad fawr â chanol tref sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sy'n perfformio'n dda ac mae'n gwasanaethu ystod eang o gymunedau yn lleol ac yn rhanbarthol, gan gynnig cymysgedd o enwau sydd i'w gweld yn genedlaethol ar y stryd fawr ynghyd â siopau manwerthu lleol ac arbenigol llai. Mae darpariaeth fanwerthu a masnachol canol y drefn wedi cael ei gwella dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil adeiladu datblygiad Rhodfa'r Santes Catrin. Siop Debenhams yw conglfaen elfen fanwerthu'r datblygiad, ac mae'r sinema aml-sgrîn yn ganolbwynt i'r elfen hamdden fasnachol.

Darpariaeth ar gyfer Twf Tai

6.18 Mae'r mwyafrif o'r datblygiadau cyfredol ac arfaethedig yng Nghaerfyrddin o fewn y CDLI mabwysiedig wedi'u cydgrynhoi ar ochr orllewinol y dref sy'n cynnwys Safle Strategol Gorllewin Caerfyrddin. Bydd lle yn yr ardal fawr hon i 1100 o gartrefi, yn ogystal â chyfleusterau cymunedol, a ffordd newydd i gysylltu pen gogleddol Tre Ioan â'r A40. Mae hyn yn 59% o'r dyraniadau a adnabuwyd ar y cyfan ar gyfer Caerfyrddin.

Darpariaeth Cyflogaeth


6.19 O ran y defnyddiau cyflogaeth Dosbarth B traddodiadol mae gan Gaerfyrddin dros 25 ha o dir sydd wedi'i ddyrannu at ddibenion cyflogaeth yn y CDLI cyfredol ac mae gan y dref

swm tebyg o dir (wedi'i anodi yn y CDLI) sy'n cynnal gweithgareddau cyflogaeth presennol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r dref yn bwysig fel cyflogwr ar raddfa fawr trwy'r Cyngor Sir, Ysbyty Glangwili a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Casgliad

6.20 Mae Caerfyrddin yn darparu rôl ranbarthol a lleol bwysig o ran cyflogaeth, manwerthu a hamdden ac o ganlyniad mae'n lle dymunol i fyw. Mae natur gynaliadwy'r dref ynghyd â'i chyfleusterau presennol a'i chapasiti i dderbyn twf yn dangos pwysigrwydd y dref a bydd yn sicrhau ei rôl barhaus fel canolfan ranbarthol ar gyfer cyflogaeth, manwerthu, tai, iechyd a darpariaeth hamdden. Gan hynny, bydd ei dynodiad fel Prif Ganolfan yn golygu bod y mwyafrif o ddatblygiadau newydd yn cael eu dyrannu i'r clwstwr hwn. Wrth ddynodi Caerfyrddin fel prif ganolfan y clwstwr, bydd yn cefnogi'r aneddiadau o'i hamgylch fel y sail i'w hanghenion cymdeithasol ac economaidd.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Pont-iets / Y Meinciau / Pont-henri

Canolfan Wasanaethau

6.21 Mae grŵp o aneddiadau sydd â chysylltiad agos, sef Pont-iets, Y Meinciau a Phont-henri wedi'u lleoli yng Nghwm Gwendraeth, yn union rhwng Caerfyrddin a Llanelli ac fe'u nodweddir gan weithgareddau diwydiannol blaenorol a oedd yn ymwneud â chloddio am lo. Mae'n cynrychioli canolfan sefydledig gyda sail boblogaeth gref a ategir gan yr holl wasanaethau a chyfleusterau a ddisgwyllir gan anheddiad o'r fath. Yn hyn o beth, mae'n cynnwys darpariaeth fanwerthu leol, ysgol gynradd, gofal iechyd a.y.b.

Cymeriad

6.22 Nodweddir Pont-iets a'r Meinciau gan batrwm datblygu llinol sydd â Chwm Gwendraeth yn gefndir iddo, ac yn yr achos hwn mae gan dopograffeg yr anheddiad rôl allweddol sy'n estyn y pentref dros bellter o 2.5 milltir. Gellir dadlau bod gan elfen ddeheuol y pentref gysylltiadau gwell â Llanelli; fodd bynnag at ei gilydd mae'r mwyafrif o'r ffurf drefol yn gorwedd yn rhan ogleddol y cwm gyda chysylltiadau gwell â Chaerfyrddin. Mae gan yr ysgol gynradd ym Mhont-iets rôl allweddol yn ffabrig cymdeithasol yr ardal hon yng Nghwm Gwendraeth.

6.23 Mae materion perygl llifogydd yn amlwg yng ngwaelod y cwm y mae'r anheddiad wedi'i ganoli arno.

6.24 O ran Pont-henri, mae'r pentref wedi'i leoli ar yr hen linell reilffordd a arferai gael ei defnyddio fel rhan o'r gweithgareddau glofaol. Mae rhan o ardal ogleddol Pont-henri wedi'i lleoli o fewn parthau perygl llifogydd. Mae gan Pont-henri gysylltiadau â Phont-iets a Phontyberem, ac mae gan y ddau anheddiad hwn rôl fel canolfan gwasanaethau lleol ar gyfer darparu bwyd a gofal iechyd yn lleol.

Darpariaeth Fanwerthu

6.25 Mae gan Pont-iets rôl hollbwysig o ran darpariaeth fanwerthu gyda siop fwyd a gorsaf betrol leol.

Darpariaeth Tai

6.26 Dim ond twf ar raddfa fach mewn tai a welwyd yn y tri anheddiad, gyda methiant i gyflawni niferoedd preswyl mwy o bosibl i'w briodoli i agosrwydd y datblygiad tai ar raddfa fawr yn Ffos Las – sydd wedi gorlenwi'r cyflenwad tai. O'r 239 o unedau dangosol sydd

wedi'u dyrannu yn y CDLI mabwysiedig cyfredol, mae 219 o unedau'n dal i fod heb eu datblygu. Mewn perthynas â heriau sy'n ymwneud â chyflawni safleoedd gellir cyfeirio at y ffaith nad yw graddfa'r dyraniadau tai eu hunain, megis datblygu safle â 30 o unedau neu safle â 100 o unedau, yn ateb y galw yn y farchnad leol.


Darpariaeth Cyflogaeth

6.27 Mae gan yr anheddiad gyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fach; fodd bynnag, nid oes unrhyw ddyraniadau cyflogaeth o fewn y pentref. Mae'r anheddiad yn dibynnu ar yr ardaloedd twf ar gyfer y mwyafrif o'i ofynion cyflogaeth.

Casgliad

6.28 Mae ei ddyraniad fel canolfan gwasanaethau lleol o fewn y clwstwr hwn yn un pwysig, o ystyried ei gysylltiadau agos â Chaerfyrddin a Llanelli. Fel a nodwyd uchod, mae lefel y twf yn yr aneddiadau wedi bod yn gyfyngedig i gyfleoedd ar raddfa fach gyda'r safleoedd mwy a ddyrannwyd yn peidio â chael eu cyflwyno. Bydd natur a graddfa'r datblygiadau a ddyrennir i'r aneddiadau'n cael eu hadolygu ar gyfer y CDLI Adneuo.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Clwstwr 2

6.29 Mae'r clwstwr hwn ar hyd morlin Llanelli'n cadw ffocws datblygiadol cryf, gyda'i potensial adfywio'n cael ei gydnabod yn y Strategaeth Trawsnewidiadau, y Fargen Ddinesig a'r CDLI Mabwysiedig cyfredol. Mae wedi'i leoli yn ne ddwyrain y Sir, sy'n bennaf yn drefol o ran natur. Mae ganddo hygyrchedd da ar hyd ffyrdd (gan gynnwys yr M4) a rheilffyrdd, ac mae ei agosrwydd at Abertawe'n sicrhau bod ei bwysigrwydd strategol i Sir Gaerfyrddin yn cael ei adlewyrchu yn ei ddyheadau datblygu. Mae Llanelli (gan gynnwys Llangennech) a Phorth Tywyn / Pen-bre yn elfennau allweddol o gyflawni cartrefi a swyddi newydd ac fe'u hategir gan Gydweli a Hendy yn hyn o beth. Mae'r ardal yn gwneud cyfraniad cryf o ran manwerthu, tra bo'i photensial twristiaeth wedi'i nodi gan gynnwys Cae Rasys Ffos Las yn Nhrimsaran.

6.30 Wrth nodi amlygrwydd parhaus y sector gweithgynhyrchu traddodiadol, caiff sail sectoraidd yr ardal, sy'n ehangu, ei hadlewyrchu yn yr arlwyon cyflogaeth cyferbyniol yn y Bynie, Dafen a Llynnoedd Delta.

Llanelli

Prif Ganolfan

Cymeriad

6.31 Mae Llanelli wedi'i lleoli'n strategol yn agos at goridor trafndiaeth yr M4 yn ogystal â bod ar y cyswllt rheilffordd rhwng Llundain ac Abergwaun. Mae Llanelli'n ganolfan arwyddocaol ar leoliad arfordirol sydd wedi'i lleoli yn ne ddwyrain y Sir. A hithau'n draddodiadol yn ganolfan ar gyfer diwydiant trwm a gweithgynhyrchu, mae'r dref yn dal i fod yn ganolfan allweddol ar gyfer gweinyddu a chyflogaeth, y mae ei lleoliad cynaliadwy'n cadarnhau ei haddasrwydd i dderbyn twf dros gyfnod y cynllun.

6.32 Caiff rôl flaenllaw Llanelli ei hatgyfnerthu yng Nghynllun Gofodol Cymru sy'n cydnabod rôl allweddol y dref yn Ardal Bae Abertawe-Y Glannau a'r Cymoedd Gorllewinol.

6.33 Mae Llanelli yn cyflawni rôl allweddol o ran Bargen Ddinesig Bae Abertawe gyda'r Pentref Lles a Gwyddor Bywyd yn gonglfaen i'r rhanbarth ac yn cynnig buddsoddiad sylweddol a chyfleoedd deilliedig.

6.34 Mae cyfran uchel o boblogaeth y sir wedi'i chydgrynhoi o amgylch Llanelli, gydag ardaloedd Cyngor Tref Llanelli a Chyngor Gwledig Llanelli'n cynnwys ychydig dros 20% o boblogaeth y Sir.

Cymeriad

6.35 Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i ddangos tystiolaeth o'r cyfyngiadau datblygiadol cyfredol a brofir yn Llanelli a chynnal ymchwiliadau iddynt. Caiff de'r dref ei hatal gan y parth perygl llifogydd gyda chymysgedd o ardaloedd perygl llifogydd C1 ac C2.

6.36 O ran yr ystyriaethau hynny mewn perthynas â seilwaith sy'n effeithio ar ardal Llanelli, bu ymwybyddiaeth hirsefydlog o'r materion sy'n codi o ran cyfundrefnau gwastraff a dŵr wyneb yr ardal. Mae Safle Morol Ewropeaidd Bae a Morydau Caerfyrddin yn rhan o rwydwaith o ardaloedd ledled Ewrop gyfan – cyfres Natura 2000 – a ddynodwyd dan Gyfarwyddbau Cynefinoedd ac Adar yr Undeb Ewropeaidd i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig ac o dan fygythiad ar raddfa Ewropeaidd.

Darpariaeth Fanwerthu

6.37 Mae gan Lanelli (a'i chanol tref) rôl fanwerthu sefydledig sydd wedi cael ei hategu dros y blynyddoedd diwethaf gan barciau manwerthu y tu allan i'r dref. Er gwaethaf yr arlwy fanwerthu yn y datblygiadau y tu allan i'r dref, mae'r dref yn cadw craidd manwerthu sy'n cynnwys cymysgedd o siopau cenedlaethol a lleol. Mae'r datblygiad ym 'Mhorth y Dwyrain', sy'n cynnwys sinema'r Odeon wedi adfywio rhan o ganol y dref yn sylweddol, gan hefyd ehangu arlwy canol y dref i gynnig hamdden fasnachol.

6.38 Bu buddsoddiadau parhaus yng nghanol y dref o ran adnewyddu eiddo fel rhan o'r grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Mae hyn wedi dangos llwyddiant amlwg o ran adfywio ardaloedd yng nghanol y dref ac o ran ailddechrau defnyddio eiddo mewn modd effeithiol. Mae Gorchymyn Datblygu Lleol (GDLI) arfaethedig ar gyfer canol y dref yn cael ei lunio gyda'r bwriad y bydd y Cyngor Sir yn ei fabwysiadu ac mae'n cysylltu â'r amcanion adfywio ehangach ar gyfer canol y dref.

6.39 Mae'r arlwy manwerthu y tu allan i'r dref ym Mharc Trostre a Pharc Pemberton yn cynnwys cymysgedd o siopau nwyddau cymharol, swmpus a chyfleustra, gan gynnwys siopau cludfwyd cyflym ac archfarchnadoedd mawr Tesco a Morrisons.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.40 Mae gan Llanelli hanes llwyddiannus o gyflawni ei thwf tai gydag 17 o'r dyraniadau tai yn Llanelli (gan gynnwys Llangennech) wedi cael eu cwblhau. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd bod nifer o ddyraniadau mwy heb gael eu datblygu yn ardal Llanelli, yn enwedig o amgylch y porth dwyreiniol. Er bod y safleoedd hyn yn gwneud cyfraniad mawr at y ffigwr tai ar y cyfan ar gyfer Llanelli, mae gan nifer o'r safleoedd hyn ganiatadau cynllunio dilys.

Darpariaeth Cyflogaeth

6.41 Mae Llanelli'n cynnig ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth gan gynnwys cyflogaeth yn y sector gweithgynhyrchu, gwasanaethau a manwerthu. Mae Llanelli'n cefnogi'r llafurlu o fewn yr ardal, ac mae ei safle ar yr M4 yn arwain at gymudo allan o'r Sir i gyfeiriad Abertawe a'r tu hwnt.

6.42 O ran tir cyflogaeth Dosbarth Defnydd B traddodiadol, mae dros 32 ha o dir wedi'i ddyrannu at ddibenion o'r fath yn y CDLI cyfredol. Ochr yn ochr â hyn ceir y swm helaeth o dir cyflogaeth presennol sy'n gorwedd yn Llanelli, sy'n gyfanswm o 216 ha (gan gynnwys Llangennech), sy'n parhau i ateb diben pwysig trwy drosgiant neu newid defnydd busnesau presennol ac ailddatblygu safleoedd blaenorol neu segur.

6.43 Yn fwy diweddar mae Bargaen Ddinesig Bae Abertawe wedi dynodi bod un o dri phrosiect newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Pentref Lles a Gwyddor Bywyd – yn dod i'r Safle Strategol yn Llynnoedd Delta yn Llanelli.


Casgliad

6.44 Mae natur gynaliadwy Llanelli a'i chaptiti ar gyfer twf yn tanlinellu pwysigrwydd y dref a bydd yn sicrhau ei rôl barhaus fel canolfan ranbarthol ar gyfer cyflogaeth, manwerthu, tai, iechyd a darpariaeth hamdden. Gan hynny, bydd ei dynodiad fel Prif Ganolfan y golygu mai dyma ble y gwelir y mwyafrif o ddatblygiadau newydd yn y clwstwr hwn. Trwy ddynodi Llanelli fel prif ganolfan y clwstwr, bydd yn cefnogi'r aneddiadau o'i hamgylch ar gyfer eu hanghenion cymdeithasol ac economaidd.

6.45 Cydnabyddir y dylai'r twf hwn gael ei gynllunio mewn modd sy'n adlewyrchu ac yn cydnabod rhai o'r heriau presennol, yn anad dim y rhai sy'n ymwneud â pherygl llifogydd a'r cyfyngiadau amgylcheddol.

6.46 Mae cyfleoedd yn y dyfodol gan gynnwys adfywio canol y dref a'r ardal arfordirol yn hybu ac yn sbarduno gwelliannau economaidd-gymdeithasol. Bydd hefyd yn gwella hygyrchedd cartrefi, gwasanaethau a chyflogaeth ledled De Ddwyrain Sir Gaerfyrddin a'r tu hwnt.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Porth Tywyn / Pen-bre

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.47 Mae Porth Tywyn a Phen-bre yn ganolfan boblogaeth fawr yng nghyd-destun canolfannau gwasanaethau presennol yn Sir Gaerfyrddin gyfan. Mae mewn lleoliad arfordirol pwysig ac yn dangos arlwy wasanaethau sy'n gryf, er ei bod yn amlwg yn llai nag arlwy Prif Ganolfannau. Mae Porth Tywyn a Phen-bre yn darparu cyfle ar gyfer twf, yn enwedig o ystyried ei bod yn agos iawn at Lanelli, gyda bwriad i ganoli cryn dipyn o'r datblygu yn ardal Harbwr Porth Tywyn sydd wedi cael ei adfywio'n rhannol gydag arlwy twristiaeth/hamdden a chysylltiadau â Pharc Arfordir y Mileniwm a Pharc Gwledig Pen-bre. Mae gan yr ardal amgylchedd naturiol eithriadol a chyfeirir at y ffaith bod Safle Morol Ewropeaidd Bae a Morydau Caerfyrddin yn agos.

Darpariaeth Fanwerthu

6.48 Mae ffin canol tref Porth Tywyn yn darparu arlwy fanwerthu leol sy'n ymgorffori cymysgedd o fanwerthwyr cyfleustra a chymharol. Caiff canol y dref, y mae Heol yr Orsaf yn ffin iddo, ei rannu gan y llinell reilffordd.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.49 Mae gan yr aneddiadau rôl bwysig yn yr ardal o ran cefnogi ac ategu Llanelli, gyda dosbarthiad sy'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth bod ffocws twf yn y ganolfan gyfagos. Mae Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018 yn nodi bod rhyw 262 o'r 413 o unedau a ddyrannwyd yn y CDLI mabwysiedig heb gael eu datblygu.

6.50 Mae Porth Tywyn hefyd yn cynnwys hapsafleoedd amrywiol sydd wedi cael caniatâd cynllunio o amgylch ardal yr harbwr a'r rheiny'n gyfanswm o 374 o unedau. Mae'r fframwaith yn bodoli i gefnogi cyfle adfywio ar raddfa fawr yn ardal yr harbwr.


Darpariaeth Cyflogaeth

6.51 O ran y defnyddiau cyflogaeth Dosbarth B traddodiadol, mae Parc Diwydiannol Dyfatty (dros 3 ha mewn maint) yn cefnogi'r ardal o ran darpariaeth cyflogaeth newydd yn y CDLI mabwysiedig cyfredol. Ar y cyd â hyn ceir y swm helaeth o dir cyflogaeth sy'n gorwedd o fewn y dref, sy'n gyfanswm o bron i 11 ha, sy'n parhau i ateb diben pwysig o safbwynt cyflogaeth.

Casgliad

6.52 O ystyried y dadansoddiad uchod, mae Porth Tywyn a Phen-bre yn aneddiadau hunangynhaliol gyda'r holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol i'w graddfa. Yn hyn o beth, maent yn cyflawni rôl hollbwysig fel canolfan wasanaethau o fewn yr hierarchaeth aneddiadau. Bydd natur a graddfa'r datblygiadau a ddyrennir i'r aneddiadau'n cael eu hadolygu fel rhan o'r CDLI Adneuo.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Hendy / Fforest

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.53 Mae safle Hendy a Fforest o fewn y fframwaith aneddiadau'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth sy'n cefnogi Llanelli i raddau helaeth ac sy'n deillio o'u lleoliad ar gyffordd yr M4. Mae hyn yn cynnig cyfle i dderbyn lefel o dwf sy'n debyg i anheddiad sydd wedi'i leoli o fewn de ddwyrain y Sir sy'n drefol yn bennaf.

6.54 Cafodd Hendy ei gategoreiddio fel rhan o Lanelli yng Nghynllun Gofodol Cymru ac er bod lefel y twf a ddisbarthwyd i'r pentref yn y CDLI mabwysiedig (Preswyl – 219 o anheddau) yn tystio i'w lleoliad ar bwys yr M4, mae ei swyddogaeth ar lefel y Sir, a'i rôl o ran cefnogi Llanelli ei hun, mae'n arddangos cymeriad Canolfan Wasanaethau yn yr ystyr ei fod yn darparu rôl leol bwysig ond mae'n dibynnu ar Lanelli, Pontarddulais ac Abertawe ar gyfer darpariaethau lefel uwch.

Darpariaeth Fanwerthu

6.55 Er bod Hendy'n cynnig siop leol a darpariaeth siopau bach megis y fferyllfa a siop Tesco, mae gan ganol y dref ym Mhontarddulais arlwy fanwerthu fwy. Mae Hendy yn dibynnu ar Lanelli a Throstre ar gyfer siopau manwerthu cenedlaethol mwy a darpariaeth nwyddau swmpus hefyd.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.56 Mae'r anheddiad hwn wedi perfformio'n weddol dda o safbwynt cyflawni tai lle mae'r farchnad dai'n ffyniannus gydag adeiladwyr tai cenedlaethol yn bresennol a diddordeb wedi'i adnabod ar y mwyafrif o'r safleoedd a ddyrannwyd.

6.57 Gyda Hendy a Fforest wedi'u lleoli ar bwys y ffin â Phontarddulais, mae Dinas a Sir Abertawe wedi adnabod datblygiad tai ar raddfa fawr ar gyfer Pontarddulais a bydd angen ystyried materion trawsffiniol o ran niferoedd y tai fel rhan o'r CDLI Diwygiedig.

Darpariaeth Cyflogaeth

6.58 Nid oes gan Hendy unrhyw dir penodol sydd wedi'i ddyrannu at ddibenion cyflogaeth yn y CDLI mabwysiedig cyfredol; fodd bynnag, mae gan yr anheddiad ystâd ddiwydiannol 4 ha sy'n darparu unedau ar gyfer nifer o fusnesau, gan felly roi darpariaeth leol bwysig o ran cyflogaeth.


6.59 Ar ben hynny, mae Hendy'n elwa o'i leoliad strategol ar bwys yr M4 ac o'i agosrwydd at y gwasanaethau a'r amwynderau a ddarperir gan Lanelli.

Casgliad

6.60 O ystyried y dadansoddiad uchod, mae Hendy a Fforest yn bentrefi hunangynhaliol gyda'r holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol i'w graddfa'n agos iawn atynt.

6.61 Bydd natur a graddfa'r datblygiadau a ddyrennir i'r anheddiad yn cael eu hadolygu. Rhaid ystyried ei rôl o ran cefnogi Llanelli, yn ogystal â'r goblygiadau trawsffiniol posibl gyda Phontarddulais.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Llangennech

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.62 Mae safle Llangennech o fewn y fframwaith aneddiadau'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth sy'n cefnogi Llanelli i raddau helaeth ac sy'n deillio o'i leoliad ar gyffordd yr M4. Mae hyn yn cynnig cyfle i dderbyn lefel o dwf sy'n debyg i anheddiad sydd wedi'i leoli o fewn de ddwyrain y Sir sy'n drefol yn bennaf. Mae Llangennech wedi'i gategoreiddio fel rhan o Lanelli yng Nghynllun Gofodol Cymru ac er bod lefel y twf a ddosbarthwyd i'r pentref yn y CDLI mabwysiedig (Preswyl – 219 o anheddau) yn tystio i'w leoliad ar bwys yr M4, mae ei swyddogaeth ar lefel y Sir yn un i Llanelli ei hun. Yn hyn o beth dylid nodi bod yr anheddiad wedi'i ddatgysylltu oddi wrth Lanelli, ond bod ganddo berthynas dda â'r dref. Mae'n arddangos cymeriad Canolfan Wasanaethau yn yr ystyr ei fod yn darparu rôl leol bwysig ond mae'n dibynnu ar ganolfannau cyfagos Llanelli ac Abertawe ar gyfer darpariaethau lefel uwch.

Darpariaeth Fanwerthu

6.63 Mae Llangennech yn cynnig darpariaethau siopau bwyd lleol sy'n diwallu anghenion yr anheddiad. Fodd bynnag, mae'n dibynnu ar Lanelli ar gyfer nwyddau cymharol, cyfleustra a swmpus mwy.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.64 Mae'r anheddiad hwn wedi perfformio'n weddol dda o safbwynt cyflawni tai lle mae'r farchnad dai'n ffyniannus gydag anheddau wedi'u cwblhau a diddordeb wedi'i adnabod ar y mwyafrif o safleoedd sydd wedi'u dyrannu. Mae cryn dipyn o'r twf tai wedi'i ganoli yn y Bryn, lle mae adeiladwyr tai cenedlaethol ar y safle ar hyn o bryd.

Darpariaeth Cyflogaeth

6.65 Nid oes gan Llangennech unrhyw dir penodol sydd wedi'i ddyrannu at ddibenion cyflogaeth yn y CDLI mabwysiedig cyfredol; fodd bynnag mae gan yr anheddiad ddwy ardal ddiwydiannol bresennol, gan gynnwys yr ystâd helaeth yn Heol Trosserch (dros 20 ha) sy'n cynnwys nifer fawr o fusnesau, gan felly roi darpariaeth bwysig o ran cyflogaeth.


6.66 Ar ben hynny, mae Llangennech yn elwa o'i leoliad strategol ar bwys yr M4 ac o'i agosrwydd at y gwasanaethau a'r amwynderau a ddarperir gan Lanelli.

Casgliad

6.67 O ystyried y dadansoddiad uchod, mae Llangennech yn bentref hunangynhaliol gyda'r holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol i'w raddfa'n agos iawn ato. Yn hyn o beth, mae'n cyflawni rôl hollbwysig fel canolfan wasanaethau o fewn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae ei leoliad ar goridor yr M4 yn ei wneud yn anheddiad deniadol i gymudwyr.

6.68 Bydd natur a graddfa'r datblygiadau a ddyrennir i'r anheddiad yn cael eu hadolygu. Rhaid ystyried ei rôl o ran cefnogi Llanelli.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Trimsaran / Carwe

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.69 Caiff Trimsaran ei gydnabod fel anheddiad allweddol wedi'i grwpio yn Strategaeth Ardal Bae Abertawe: Y Glannau a'r Cymoedd Gorllewinol yng Nghynllun Gofodol Cymru. Mae wedi'i leoli yn rhan isaf Cwm Gwendraeth yn gymharol agos at Lanelli, Cydweli a Phorth Tywyn, ac fe'i nodweddir gan weithgareddau diwydiannol blaenorol a oedd yn ymwneud â chloddio am lo. Mae'n cynrychioli canolfan sefydledig gyda sail boblogaeth gref a ategir gan yr holl wasanaethau a chyfleusterau a ddisgwylir gan anheddiad o'r fath. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau addysg, canolfan hamdden, fferyllfa a swyddfa bost leol, ymhlith eraill.

6.70 Mae'r anheddiad yn cyflawni rôl bwysig fel ardal Gymraeg allweddol o fewn cadarnleoedd ieithyddol Cwm Gwendraeth.

6.71 Mae Carwe wedi newid yn sylfaenol dros y 15 mlynedd ddiwethaf gydag adfywio gwaith glo brig Ffos Las i greu cae rasys yn ddatblygiad amlwg. Mae'r datblygiad hwn wedi cynnwys datblygiad mawr gan Persimmon hefyd.

Darpariaeth Fanwerthu

6.72 Mae gan yr anheddiad siop leol ar gyfer nwyddau cyfleustra, gyda Chydsweli a Llanelli'n agos ar gyfer gofynion manwerthu mawr trigolion.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.73 Mae ei safle o fewn hierarchaeth y CDLI mabwysiedig yn adlewyrchu ei raddfa, ei rôl a'i swyddogaeth. Er bod dosbarthiad twf o fewn y CDLI mabwysiedig cyfredol yn adlewyrchu hyn, ychydig o dai a gyflawnwyd yn Nhrimsaran. Fodd bynnag, byd y datblygiad adfywio ar raddfa fawr yng Nghae Rasys Ffos Las gerllaw gyda'i 480 o dai cysylltiedig wedi effeithio ar gapasiti'r farchnad dai yn Nhrimsaran.


Darpariaeth Cyflogaeth

6.74 Mae gan yr aneddiadau gyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fach; fodd bynnag, nid oes unrhyw ddyraniadau cyflogaeth yn y pentrefi.

Casgliad

6.75 Fel a nodwyd uchod mae lefel y twf yn Nhrimsaran wedi bod yn gyfyngedig i gyfleoedd ar raddfa fach gan nad yw'r safleoedd mwy a ddyrannwyd wedi cael eu cyflwyno. Bydd natur a graddfa datblygiadau a ddyrennir i'r aneddiadau'n cael eu hadolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth ddsbarthu datblygiadau yn y dyfodol.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Cydweli

Canolfan Wasanaethau

6.76 Caiff Cydweli ei hadnabod fel tref sydd â rôl bwysig fel canolfan wasanaethau yn ardal drefol de ddwyrain Sir Gaerfyrddin, ac ym mhorth deheuol Cwm Gwendraeth. Mae wedi'i lleoli'n agos at ardal uwchgyllun y Glannau yng Nghynllun Gofodol Cymru ac fe'i cydnabyddir fel anheddiad allweddol wedi'i grwpio yn Ardal Bae Abertawe: Y Glannau a Chymoedd y Gorllewin yng Nghynllun Gofodol Cymru.

Cymeriad

6.77 Mae Cydweli wedi'i lleoli ar y coridor cludiant cynaliadwy ar y brif linell reilffordd rhwng Abergwaun a Llundain gyda gorsaf wedi'i lleoli o fewn 5 munud ar droed i ganol y dref. Mae cysylltiadau rhyngddi a Llanelli a Chaerfyrddin ar hyd yr A484 hefyd.

6.78 Mae gan Gydweli ddarpariaeth leol o ran cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys ysgol gynradd, gofal iechyd, siopau cludfwyd a thafarndai a.y.b. Mae ffactorau nodedig o ran datblygu dealltwriaeth am gapasiti'r anheddiad ar gyfer twf yn cynnwys perygl llifogydd a threftadaeth hanesyddol adeiledig yr anheddiad.

6.79 Mae Cydweli'n cynnig cyfleoedd amrywiol ym maes twristiaeth, gan gynnwys Castell Cydweli, ac yn yr ystyr ei bod yn agos at dwristiaeth arfordirol Bae Sir Gaerfyrddin a Pharc Gwledig Pen-bre.

Darpariaeth Fanwerthu

6.80 Mae'r anheddiad yn arddangos darpariaeth fanwerthu leol sy'n cynnwys siop fwyd leol.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.81 Mae'r CDLI mabwysiedig yn cydnabod pwysigrwydd Cydweli fel canolfan wasanaethau ac adlewyrchir hyn yn nifer y dyraniadau tai yn y dref. Ar y cyfan, mae gan Gydweli 10 o ddyraniadau tai, sy'n amrywio o ran eu graddfa o 6 uned i 95 uned. O'r 301 o unedau a ddyrannwyd yn y CDLI, mae 224 o unedau'n weddill (yn ôl Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018).


Darpariaeth Cyflogaeth

6.82 Er nad oes gan yr anheddiad ddyraniadau cyflogaeth, mae'r anheddiad yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth amrywiol, a hynny ym maes twristiaeth, y diwydiant bwyd anifeiliaid anwes ac ystafelloedd arddangos ceir.

Casgliad

6.83 O ystyried y dadansoddiad uchod, mae Cydweli'n dref hunangynhaliol gyda'r holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol i'w graddfa. O ystyried ei lleoliad, yn union yn y canol rhwng Llanelli a Chaerfyrddin, gallai'r aneddiadau berthyn i'r naill glwstwr neu'r llall. Bydd natur a graddfa datblygiadau a ddyrennir i'r anheddiad yn cael eu hadolygu. Rhaid ystyried ei rôl o ran cefnogi pentrefi eraill sy'n agos ati, gan gynnwys Mynyddygarreg, Llansaint, a Glanyfferi ymhlith eraill.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Glanyfferi

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.84 Gorwedd Glanyfferi mewn cyd-destun gwledig ar aber afon Tywi ac mae'n cyflawni rôl wasanaethau ar gyfer cymunedau pellennig, llai. Mae gan yr anheddiad ddarpariaeth addysg ac iechyd. Fe'i nodweddir gan ei golwg wledig, a hithau mewn lleoliad cyfyngedig rhwng yr aber, y llinell reilffordd a'r ardaloedd gwledig i'r dwyrain. Mae Glanyfferi wedi'i lleoli ar y brif linell reilffordd y Great Western rhwng Abergwaun a Llundain gyda'r orsaf wedi'i lleoli yng nghanol yr anheddiad.

Darpariaeth Fanwerthu

6.85 Mae Glanyfferi mewn lleoliad da i elwa o'r economi ymwelwyr, gyda Pharc Gwyliau Bae Caerfyrddin. Mae gan yr anheddiad siop leol ar gyfer nwyddau cyfleustra. Mae Cydweli a Chaerfyrddin yn agos ar gyfer arlwy fanwerthu'r trigolion.

Darpariaeth o ran Tai

6.86 Fe adnabu'r CDLI ddau ddyraniad tai yng Nglanyfferi. Mae un dyraniad wedi cael ei gwblhau tra bo'r llall wrthi'n cael ei ddatblygu fesul llain. Mae'r dopograffeg o amgylch Glanyfferi'n cyfyngu'n sylweddol ar ddatblygiadau newydd, yn ychwanegol at y parth perygl llifogydd C2 ar ymyl ogleddol y pentref.


Darpariaeth Cyflogaeth

6.87 Er bod darpariaethau cyflogaeth ar raddfa fach yng Nglanyfferi, mae'n canolbwyntio ar dwristiaeth yn bennaf. Nid oes unrhyw dir wedi'i ddyrannu ar gyfer darpariaeth cyflogaeth.

Casgliad

6.88 Mae gan yr anheddiad gysylltiadau â chlystyrau Caerfyrddin a Llanelli, trwy eu harlwy o ddarpariaeth fanwerthu, cyflogaeth a chymdeithasol / hamdden. O ran dosbarthiad, mae ei rôl a'i safle o fewn fframwaith aneddiadau'r CDLI Diwygiedig wedi'u cydbwyso â graddfa neu faint yr anheddiad ac yn adlewyrchu ei gymeriad a lleoliad gwledig. Yn hyn o beth, byddai natur a graddfa'r twf yn adlewyrchu ei gyd-destun a'i gapasiti ar gyfer datblygu pellach.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Clwstwr 3 – Amman a Gwendraeth Uchaf

6.89 Er ei bod yn bennaf yn drefol ac ôl-ddiwydiannol o ran natur, caiff amrywiaeth yr ardal gymeriad hon ei diffinio gan gyfres o aneddiadau rhyngberthynol. Mae'r broses o gyflawni cartrefi a swyddi newydd wedi cael ei ganoli ar goridor yr A48, gyda Cross Hands ac aneddiadau cyfagos yn ffocws allweddol. Mae Rhydaman yn cyflawni rôl bwysig fel canolfan wasanaethau, gan ddarparu cyfleusterau manwerthu, cyflogaeth, addysg a hamdden lleol.

6.90 Mae ardaloedd ôl-ddiwydiannol Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth (uchaf) yn cael eu hystyried yn gadarnleoedd ieithyddol allweddol ac maent yn elfennau allweddol o ran diffinio'r ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'r aneddiadau hyn yn y Dyffryn a'r Cwm yn cyflawni swyddogaeth fel canolfan wasanaethau leol yn hytrach na bod yn ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Mae amgylchedd naturiol yr ardal yn cyfrannu at ei chymeriad hefyd, gyda phrosiect Caeau Mynydd Mawr yn elfen annatod o ran cyfryngu a chymbwysio galwadau croes.

Rhydaman / Cross Hands

Prif Ganolfan

6.91 Mae Rhydaman a Cross Hands yn rhan o grŵp o gymunedau/aneddiadau rhyngberthynol a chysylltiedig. Ystyrir bod y rhain yn cyflawni rôl allweddol fel y prif ganolfannau mewn cyfres o aneddiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y Brif Ganolfan ddynodedig. Yr aneddiadau eraill sy'n rhan o'r Brif Ganolfan yw:

- Betws
- Tycroes
- Capel Hendre
- Saron
- Llandybie
- Blaenau / Caerbryn
- Penygroes
- Castell y Rhingyll
- Gorslas
- Cefneithin
- Drefach, a hefyd
- Y Tymbl

6.92 Mae pob un o'r aneddiadau hyn yn gwneud cyfraniad tuag at gyflawni twf y Brif Ganolfan ac yn gronnol maent yn darparu canolfan bwysig ar gyfer tai a chyfleusterau cyflogaeth yn y Sir. Mae lleoliad y Brif Ganolfan ar goridor yr M4/A48 ac yng nghanolbwynt Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth yn atgyfnerthu ei phwysigrwydd a'r rôl strategol a gyflawnir ganddi o fewn y Sir a'r rhanbarth.

6.93 Caiff rôl amlwg ardal Rhydaman/Cross Hands ei chydnabod trwy Strategaeth Drawsnewid y Cyngor a'i hatgyfnerthu yng Nghynllun Gofodol Cymru sy'n cydnabod ei rôl allweddol yn Ardal Bae Abertawe – Y Glannau a Chymoedd y Gorllewin.

Cymeriad

6.94 A hithau'n draddodiadol yn ganolfan o ddiwydiant trwm, mae'r ardal yn cynnig cyfle ar gyfer adfywio, yng nghanol y trefi, a hefyd y cymunedau cyfagos. Mae Cross Hands wedi tyfu'n sylweddol fel canolfan ar gyfer manwerthu a chyflogaeth dros y blynyddoedd diwethaf, a phwysleisir ei phwysigrwydd gan ei dynodiad arfaethedig fel parth strategol.

6.95 Buddsoddwyd yn sylweddol yn seilwaith Cross Hands dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig trwy gyflawni cam 1 o Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i gyflawni cam nesaf y ffordd hon. Unwaith y bydd wedi'i chwblhau, bydd y ffordd yn darparu llwybr uniongyrchol i hwyluso'r gwaith parhaus o gyflawni Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands.

6.96 Hefyd, mae datblygiad arwyddocaol i'r gorllewin o'r A48 wedi cyflawni warysau manwerthu newydd ac mae'n cyflawni rhyw 220 o anheddau ar hyn o bryd.

Darpariaeth Fanwerthu

6.97 Mae Rhydaman yn amlwg yn llai na chanolfannau manwerthu Caerfyrddin a Llanelli ond er hynny mae'n cyflawni swyddogaeth fanwerthu bwysig o fewn y cyd-destun lleoliadol. Ategir hyn gan arlwy'r parc manwerthu sydd wedi'i ganoli ar Cross Hands.

6.98 Mae Rhydaman yn darparu cymysgedd cryf o siopau gwerthu nwyddau cymharol a chyfleustra trwy ei chanol tref traddodiadol a nifer o archfarchnadoedd. Yn ogystal â bod yn ganolfan fanwerthu, mae gan Rydaman hefyd rôl fel canolfan fasnachol gyda chymysgedd o fusnesau a gwasanaethau'r stryd fawr wedi'u lleoli yno. Mae ganddi hefyd theatr, canolfan hamdden fawr a nifer o fariau, bwytai a chaffis. Mae Cross Hands hefyd yn darparu cymysgedd cryf o siopau gwerthu nwyddau cymharol a chyfleustra. Mae Parc Manwerthu

Cross Hands, a Pharc Gorllewin Cross Hands a ddatblygwyd yn ddiweddar, yn darparu warysau manwerthu mwy, tra bo sgwâr Cross Hands a'r unedau cyfagos sydd wedi'u lleoli ar hyd Heol Llandeilo yn cynnig cymysgedd iach o unedau llai. Mae gan Cross Hands rai cyfleusterau sydd wedi'u canoli ar gylchfan yr A48 hefyd, megis bwytai bwyd cyflym, gorsaf betrol a motel, sy'n cynnig gwasanaethau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u lleoliad strategol ar y prif lwybr priffordd ledled y Sir. Mae gan nifer o'r aneddiadau eraill sy'n rhan o Brif Ganolfan Rhydaman / Cross Hands ddarpariaeth manwerthu nwyddau cyfleustra ar raddfa fach hefyd yn ogystal â chyfleusterau eraill megis tafarndai.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.99 Mae datblygiad tai ledled yr ardal wedi bod yn gymysglyd gyda Cross Hands yn nodweddiadol yn profi'n fwy deniadol o ran y farchnad na Rhydaman. Gallai hyn fod yn adlewyrchiad o'i manteision gofodol a'i hagosrwydd at yr M4 / A48 a'i hygyrchedd mewn perthynas â'r rhain ond yn yr un modd gallai fod yn adlewyrchiad o natur a graddfa safleoedd a gynigir. Mae natur amrywiol y Brif Ganolfan hon yn benthyca'i hun i gymysgedd amrywiol o safleoedd sy'n adlewyrchu graddfa anheddiad penodol a'i thuaddiad i gyflawni. Dylid rhoi sylw hefyd i'r ystod o aneddiadau sy'n amgylchynu'r Brif Ganolfan hon, y mae pob un ohonynt yn cynnig cyfleoedd gwahanol ar gyfer twf.

Darpariaeth Cyflogaeth

6.100 Mae Rhydaman/Cross Hands yn cynnig ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth gan gynnwys cyflogaeth yn y sector gweithgynhyrchu, gwasanaethau a manwerthu.

6.101 O ran tir cyflogaeth traddodiadol yn Nosbarth Defnydd B, er nad oes unrhyw safleoedd cyflogaeth newydd wedi cael eu dyrannu yn Rhydaman, darperir dros 37 ha o dir yn Cross Hands a Chapel Hendre yn y CDLI mabwysiedig cyfredol. Ar y cyd â hyn ceir y swm helaeth o dir cyflogaeth presennol sy'n gorwedd o fewn yr ardal dwf gyfan, sy'n gyfanswm o fwy nag 85 ha, sy'n parhau i ateb diben pwysig trwy ddarparu swyddi a throsiant parhaus neu newid defnydd busnesau presennol ac ailddatblygiad posibl safleoedd ac adeiladau sy'n hen neu'n segur.


6.102 Rhagwelir y bydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn trawsnewid tirwedd economaidd pob un o'r tair ardal dwf, yn rhoi hwb i'r economi leol, ac yn creu llawer o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf.

Casgliad

6.103 Fel a nodir uchod, mae Cross Hands yn ardal sy'n ennyn diddordeb a mewnfuddsoddiadau sylweddol. Mae ei lleoliad yn rhoi mynediad ardderchog at y rhwydwaith priffyrdd ledled y Sir a'r tu hwnt. Mae gan Rydaman rôl barhaus fel prif ganolfan neu hwb cymunedau Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth.

6.104 Er bod hynny ar raddfa lai na Chaerfyrddin a Llanelli, mae gan drefi Rhydaman a Cross Hands, ynghyd â'r aneddiadau eraill niferus yn y Brif Ganolfan, rôl barhaus o ran darparu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y mae eu hangen yn yr ardal leol. Mae ganddynt hefyd rôl arwyddocaol o ran darparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y Sir gyfan ac maent hefyd yn darparu'r cyfleoedd ar gyfer twf sylweddol.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Brynaman

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.105 Mae Brynaman, sydd wedi'i leoli yn Nyffryn Aman uchaf, yn cyflawni rôl bwysig yng nghyd-destun ardal a nodweddir gan ystod o aneddiadau ôl-ddiwydiannol. Mae'r anheddiad yn cynnig darpariaeth gwasanaethau manwerthu lleol ar raddfa fach ar ffurf siopau lleol megis siop gyffredinol, fferyllfa, swyddfa'r post a.y.b. yn ogystal ag ystod o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys gofal iechyd ac ysgol gynradd. Mae ei safle yn Nyffryn Aman uchaf yn golygu ei fod ar goridor trafniadaeth strategol gyda chysylltiadau da yn lleol a'r tu hwnt.

Darpariaeth Fanwerthu

6.106 Mae'r anheddiad yn cefnogi ac yn ategu Rhydaman, Glanaman a Garnant gan hefyd gysylltu ar draws y ffin â nifer o gymunedau dyffryn sydd â nodweddion tebyg ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r anheddiad hefyd yn cynnwys safleoedd cyflogaeth/diwydiannol presennol nodedig; mae gan yr ystâd ddiwydiannol fach yn Heol Cwmgarw gymysgedd o ddefnyddiau manwerthu a chyflogaeth draddodiadol.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.107 Dros y blynyddoedd diwethaf dim ond un datblygiad tai ar raddfa fach sydd wedi bod yn yr anheddiad ac nid oes unrhyw ddyraniadau yn y CDLI wedi cael eu cyflwyno. Mae'r 107 o anheddau a ddyrannwyd yn y CDLI mabwysiedig cyfredol i gyd yn dal heb eu datblygu.

6.108 Fel a nodir uchod mae lefel y twf yn yr aneddiadau wedi bod yn gyfyngedig gan ei bod yn nodweddiadol mai'r rhai ar raddfa lai sy'n fwy tebygol o gael eu cyflwyno yn hytrach na'r safleoedd mwy a ddyrannwyd. Bydd natur a graddfa datblygiadau a ddyrennir i'r aneddiadau'n cael eu hadolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth ddsbarthu datblygiadau yn y dyfodol.

Darpariaeth Cyflogaeth


6.109 Er nad oes unrhyw safleoedd cyflogaeth newydd wedi cael eu dyrannu, mae'r anheddiad yn cynnwys dau safle cyflogaeth/diwydiannol presennol nodedig sy'n gyfanswm o fwy na 5 hectar mewn maint ac sy'n cefnogi ei rôl fel canolfan wasanaethau.

Casgliad

6.110 Mae'n darparu cyfle ar gyfer twf sy'n adlewyrchiad o'r safle hwn a'r rôl wasanaethau berthynol o fewn cymunedau'r dyffryn y mae'n gorwedd ynddo. Mae'r anheddiad hwn hefyd yn darparu rôl o ran cefnogi statws Rhydaman fel ardal dwf ac mae ganddo rôl drawsffiniol gref. Mae'r anheddiad hefyd yn cynnwys safleoedd cyflogaeth presennol ar raddfa fach. Rhoddir sylw dyledus hefyd i'r ffaith bod yr anheddiad yn gorwedd mewn ardal Gymraeg draddodiadol ac yn cyfrannu at ystyriaethau ieithyddol ehangach Dyffryn Aman.

6.111 Er bod yr anheddiad yn arddangos yr holl swyddogaethau posibl sy'n angenrheidiol i gefnogi twf posibl, nid oes ganddo hanes o gyflawni ar lefel nodedig. Yn hyn o beth dylai'r twf a ddsrennir iddo yn y dyfodol adlewyrchu cyfleoedd ar raddfa fach gyda'r safleoedd mwy a ddyrannwyd yn peidio â chael eu cyflwyno. Bydd natur sut, a graddfa datblygiadau a ddyrennir i'r anheddiadau'n cael eu hadolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth ddsbarthu datblygiadau yn y dyfodol.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Glanaman / Garnant

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.112 O ran ei safle yn yr ardal a'i raddfa berthynol, mae anheddiad Glanaman/Garnant, sydd wedi'i leoli yn Nyffryn Aman, yn cyflawni rôl bwysig yng nghyd-destun yr ardal ac yn nodweddiadol o lawer o aneddiadau dyffryn ôl-ddiwydiannol tebyg. Mae'r anheddiad yn cynnig darpariaeth gwasanaethau manwerthu lleol ar ffurf siopau lleol megis; siop gyffredinol, fferyllfa, swyddfa'r post a.y.b. (wedi'u gwasgaru ledled yr ardal heb unrhyw graidd adnabyddadwy) – yn ogystal ag ystod o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys gofal iechyd, sy'n gynnwys ysbyty lleol, ac ysgol gynradd.

Darpariaeth Fanwerthu

6.113 Mae'r aneddiadau'n cefnogi ac yn ategu Rhydaman tra'u bod hefyd yn cysylltu ar draws y ffin â nifer o gymunedau yn y dyffryn sydd â nodweddion tebyg. Mae gan yr anheddiad hefyd safleoedd cyflogaeth/diwydiannol presennol nodedig. Rhoddir sylw dyledus hefyd i'r ffaith bod yr anheddiad yn cyfrannu at ystyriaethau ieithyddol ehangach Dyffryn Aman mewn ardal Gymraeg draddodiadol.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.114 Gyda nifer o eithriadau nodedig, dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd lefelau cyfyngedig o dai'n cael eu cyflawni gan fod rhyw 205 o anheddau o'r 247 sydd wedi'u dyrannu yn y CDLI mabwysiedig cyfredol yn dal heb eu datblygu eto.

6.115 Fel a nodir uchod mae lefel y twf yn yr aneddiadau wedi bod yn gyfyngedig gan ei bod yn nodweddiadol mai'r rhai ar raddfa lai sy'n fwy tebygol o gael eu cyflwyno yn hytrach na'r safleoedd mwy a ddyrannwyd. Bydd natur a graddfa datblygiadau a ddyrennir i'r aneddiadau'n cael eu hadolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth ddsbarthu datblygiadau yn y dyfodol.

Darpariaeth Cyflogaeth


6.116 Mae'r anheddiad yn cynnwys 6 safle cyflogaeth/diwydiannol presennol nodedig, sy'n gyfanswm o fwy na 9 hectar mewn maint ar y cyfan, ac sy'n parhau i gyflawni swyddogaeth bwysig o ran darparu cyflogaeth. Mae gan Lanaman un dyraniad cyflogaeth newydd yn y CDLI mabwysiedig cyfredol.

Casgliad

6.117 Mae'r anheddiad yn darparu rôl o ran cefnogi statws Rhydaman fel ardal dwf ac mae ganddo rôl drawsffiniol gref. Rhoddir sylw dyledus hefyd i'r ffaith bod yr anheddiad yn gorwedd mewn ardal Gymraeg draddodiadol ac yn cyfrannu tuag at ystyriaethau ieithyddol ehangach Dyffryn Aman.

6.118 Bydd natur sut, a graddfa datblygiadau a ddyrennir i'r aneddiadau'n cael eu hadolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth ddsbarthu datblygiadau yn y dyfodol.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Pontyberem / Bancffosfelen

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.119 Cyfeirir yn yr hierarchaeth at anheddad, ac mae hyn mewn gwirionedd yn cynrychioli aneddiadau Pontyberem a Bancffosfelen sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd yn fras. Mae'r anheddiad wedi'i leoli yng Nghwm Gwendraeth – fwy neu lai yn y canol rhwng Rhydaman/Cross Hands, Caerfyrddin a Llanelli. Fe'i nodweddir gan weithgareddau diwydiannol blaenorol a oedd yn ymwneud â chloddio am lo ac mae'n cynrychioli canolfan sefydledig gyda sail boblogaeth gref a ategir gan yr holl wasanaethau a chyfleusterau a ddisgwyllir gan anheddiad o'r fath.

6.120 Mae'r anheddiad yn bentref ôl-ddiwydiannol nodweddiadol yng Nghwm Gwendraeth o ran ystyriaethau cymdeithasol, economaidd a thopograffig. Mae gan yr anheddiad rôl bwysig fel ardal Gymraeg allweddol yn nghadarnleoedd ieithyddol Cwm Gwendraeth. Mae'n cynrychioli'r anheddiad gwasanaethau allweddol ar gyfer nifer o bentrefi a chymunedau cyfagos.

Darpariaeth Fanwerthu

6.121 Er bod yr anheddiad yn cael ei wasanaethu'n dda gan siop fwyd leol a darpariaeth fanwerthu fach mae hefyd yn gallu dibynnu ar yr aneddiadau cyfagos hynny ar gyfer darpariaethau penodol yn ogystal â mynediad at yr A48 a'r M4.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.122 Er bod dosbarthiad twf yn y CDLI mabwysiedig cyfredol yn adlewyrchiad o'i rôl a swyddogaeth fel canolfan gwasanaethau lleol, mae'r gweithgarwch cyflawni tai yn yr anheddiad wedi bod yn gyfyngedig. Yn hyn o beth, o'r 140 o unedau a ddyrannwyd yn y CDLI mabwysiedig mae rhyw 127 yn dal heb eu cyflawni.

Darpariaeth o ran Twf Cyflogaeth


6.123 Mae gan yr anheddiad gyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fach; fodd bynnag, nid oes unrhyw ddyraniadau cyflogaeth yn y pentref. Mae'r anheddiad yn dibynnu ar yr ardaloedd twf ar gyfer y mwyafrif o'i ofynion cyflogaeth.

Casgliad

6.124 Mae gan Pontyberem rôl hollbwysig ar gyfer aneddiadau pellennig, bach, ac er bod ganddo'r holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n ofynnol ar gyfer pentref bach ar y raddfa

hon ac â'r sail boblogaeth hon, mae lefel y twf yn yr aneddiadau wedi bod yn gyfyngedig i gyfleoedd ar raddfa fach gan mwyaf, gyda'r safleoedd mwy a ddyrannwyd yn peidio â chael eu cyflwyno i'r datblygu. Bydd natur a graddfa datblygiadau a ddyrennir i'r anheddiad yn cael eu hadolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth ddsbarthu datblygiadau yn y dyfodol.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Clwstwr 4

6.125 O ystyried cymeriad yr ardal sy'n wledig yn bennaf a'i sail boblogaeth lai, y categori a bennwyd ar gyfer y clwstwr hwn yw Haen 2 – Canolfan Wasanaethau ac is.

6.126 Mae Castellnewydd Emlyn yn cyflawni rôl allweddol fel canolfan wasanaethau ar gyfer yr ardal (yn enwedig o ran addysg, cyflogaeth a manwerthu lleol) yn hytrach na bod yn ffocws ar gyfer datblygu newydd. Nodir perthynas agos yr ardal â'r cymunedau hynny yng Ngheredigion, ac felly hefyd rôl aneddiadau megis Llandysul, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi i gymunedau yn yr ardal hon. Cydnabyddir y berthynas hon mewn dogfennau polisi amrywiol – yn anad dim, Cynllun Gofodol Cymru.

6.127 Mae angen ystyried safle gofodol yr ardal, ei chyfyngiadau datblygiadol ac anghenion tai, wrth egluro rôl yr ardal yn y dyfodol o ran derbyn twf. Mae nifer o'r aneddiadau yn y clwstwr hwn yn dibynnu ar Gaerfyrddin fel y brif ganolfan ar gyfer manwerthu, gweinyddu, iechyd a chyfleoedd gwaith y tu allan i amaethyddiaeth.

Castell-newydd Emlyn

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.128 Mae Castell-newydd Emlyn yn dref farchnad hanesyddol bwysig sydd o boptu ffin y Sir â Cheredigion yng nghornel ogledd-orllewinol y Sir. Afon Teifi yw ffin y Sir, gyda chanol y dref ar ochr Sir Gaerfyrddin. Ar ochr Ceredigion i'r afon mae anheddiad Adpar, sydd â chysylltiadau agos iawn â'r dref ac sydd, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi derbyn rhan o'r twf o ran tai yn y dref.

6.129 Mae gan y dref nifer o gyfyngiadau – o ran topograffeg, daeareg, o ran llifogydd a'r amgylchedd hanesyddol adeiledig, y maent i gyd yn ffactorau yn lefel y twf priodol o fewn yr anheddiad.

Darpariaeth Fanwerthu

6.130 Mae canol y dref yn darparu rôl bwysig o ran manwerthu a gwasanaethau ar gyfer yr aneddiadau gwledig cyfagos, a gydnabyddir trwy osod y dref yn Haen 2 yn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae darpariaeth fanwerthu'r dref yn gymysgedd o siopau nwyddau cymharol a chyfleustra, gyda siopau canol y dref yn rhai annibynnol a lleol yn bennaf, ac yn cael eu

hategu gan rai siopau cenedlaethol. Mae cryn dipyn o ganol y dref a'r ardal o amgylch wedi'i leoli mewn ardal gadwraeth gyda'r castell yn dirnod blaenllaw.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.131 Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cyfradd gyflawni gymharol araf yn yr anheddiad o ran darparu tai newydd. Dangosir hyn gan y ffaith nad yw 82 o'r 89 o anheddau wedi cael eu cyflawni o'r safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLI mabwysiedig presennol.

Darpariaeth Cyflogaeth


6.132 Mae gan yr anheddiad ddarpariaeth cyflogaeth sefydledig gydag ystadau diwydiannol a Hufenfa. Mae cynlluniau datblygu blaenorol wedi cydnabod bod y dref yn cynnig cyfleoedd datblygu sy'n diwallu anghenion busnes yn yr ardal.

Casgliad

6.133 A hithau'n gwasanaethu'r aneddiadau gwledig yn yr ardal ehangach, mae Castell-newydd Emlyn yn dref farchnad wledig bwysig mewn canol tref sefydledig.

6.134 Mae lefel y twf preswyl yn yr anheddiad wedi bod yn gyfyngedig i gyfleoedd ar raddfa fach, gyda'r safleoedd mwy a ddyrannwyd yn peidio â chael eu cyflwyno am amrywiaeth o resymau. Bydd natur a graddfa datblygiadau a ddyrennir i'r anheddiad yn cael eu hadolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth ddsbarthu datblygiadau yn y dyfodol

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Llanybydder

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.135 A hithau wedi'i lleoli yn Nyffryn Teifi, mae Llanybydder yn dref farchnad wledig mewn lleoliad ar y ffin â Cheredigion. Caiff y dref ei chydabod fel anheddiad allweddol yng Nghynllun Gofodol Cymru (Ardal Canol Cymru).

6.136 Mae gan Llanybydder rôl allweddol ar gyfer aneddiadau cyfagos Pencarreg a Llanllwni (sydd wedi'u lleoli yng Nghymuned Gynaliadwy 22), a Highmead ac Alltyblacca yng Ngheredigion. Mae CDLI Ceredigion yn enwi Llanybydder fel Canolfan Wasanaethau Wledig. Bydd yn rhaid i'r CDLI Diwygiedig ystyried materion trawsffiniol a chysylltiadau'r anheddiad â Llanbedr Pont Steffan, gan fod llawer o'i wasanaethau'n cefnogi trigolion Llanybydder.

Darpariaeth Fanwerthu

6.137 Mae gan y dref ystod o siopau a gwasanaethau manwerthu lleol, gan gynnwys cyfreithwyr, cydweithfa ffermwyr a garej gwerthu ceir, y mae eu nifer yn uwch ar y cyfan na'r rhai mewn canolfannau tebyg. Mae'r farchnad amaethyddol yn gyfleuster pwysig yn y dref lle cynhelir osciynau'n aml. Mae gan Llanybydder ysgol gynradd, cyfleusterau gofal iechyd a chanolfan gymunedol hefyd.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.138 O ran dosbarthu, mae ei rôl a'i safle o fewn yr hierarchaeth (er yr ategir hynny gan y gwasanaethau sydd ar gael a'i rôl o ran ei chymunedau cyfagos) yn cael eu cydbwysu â graddfa neu faint yr anheddiad sy'n adlewyrchu ei gymeriad a'i leoliad gwledig. Mae lefel twf Llanybydder wedi bod yn gyfyngedig i gyfleoedd ar raddfa fach gyda thrwch y safleoedd yn peidio â chael eu cyflwyno. Bydd natur a graddfa datblygiadau a ddyrennir i'r anheddiad yn cael eu hadolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth ddsbarthu datblygiadau yn y dyfodol.

Darpariaeth Cyflogaeth


6.139 Yn ogystal â chyflogaeth amaethyddol a'r ystadau diwydiannol yn yr ardal, mae Dunbia yn gyflogwr allweddol. Mae'r lladd-dy wedi'i leoli ar gyrion y dref ac yn darparu nifer fawr o swyddi yn y dref a'r ardal o'i hamgylch.

Casgliad

6.140 Mae gan Lanybydder rôl leol bwysig ar gyfer yr ardal wledig gyfagos, yn enwedig ar gyfer y gymuned amaethyddol.

6.141 Mae lefel y twf preswyl yn yr anheddiad wedi bod yn gyfyngedig i gyfleoedd ar raddfa fach, gyda'r safleoedd mwy a ddyrannwyd yn peidio â chael eu cyflwyno am amrywiaeth o resymau. Bydd natur a graddfa datblygiadau a ddyrennir i'r anheddiad yn cael eu hadolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth ddsbarthu datblygiadau yn y dyfodol

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Pencader

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.142 Mae Pencader yn bentref mawr gyda chysylltiadau â nifer o'r pentrefi gwledig cyfagos. Mae gan y pentref gwpl o siopau lleol ac ysgol gynradd.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.143 O ran dosbarthu, mae ei rôl a'i safle o fewn yr hierarchaeth (er yr ategir hynny gan y gwasanaethau sydd ar gael a'i rôl o ran ei chymunedau cyfagos) yn cael eu cydbwysu â graddfa neu faint yr anheddiad sy'n adlewyrchu ei gymeriad a'i leoliad gwledig. Mae twf tai wedi bod yn gymharol araf dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gan y pentref dri safle sydd wedi'u dyrannu, y mae un ohonynt bron â chael ei gwblhau.

Darpariaeth Cyflogaeth


6.144 Mae nifer o safleoedd cyflogaeth presennol wedi'u lleoli yn y pentref a'r rheiny'n gartref i ystod o fusnesau lleol.

Casgliad

6.145 Mae Pencader yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer yr ardaloedd o'i amgylch, ac mae twf ar raddfa fach wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf.

6.146 Bydd natur a graddfa twf Pencader yn y dyfodol yn cael eu hadolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth ddosbarthu datblygiadau yn y dyfodol.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Clwstr 5 – Dyffryn Tywi Uchaf

6.147 O ystyried cymeriad yr ardal sy'n wledig yn bennaf a'i dwysedd poblogaeth is, y categori a bennwyd ar gyfer y clwstr hwn yw Haen 2 – Canolfan Wasanaethau ac is.

6.148 Llandeilo, Llanymddyfri a Llangadog sy'n cyflawni rolau'r canolfannau gwasanaethau allweddol o fewn y clwstr hwn, ac maent yn cefnogi'r arlwy gymdeithasol a'r arlwy o ran cyflogaeth, addysg a manwerthu lleol ar gyfer yr aneddiadau llai. Mae'r ardal wedi'i chysylltu'n dda â'r rhwydwaith trafniadaeth ehangach trwy'r A40, yr A476 a Rheilffordd Calon Cymru.

6.149 Gall ystyriaeth i safle gofodol yr ardal, ei chyfyngiadau datblygiadol (e.e. perygl llifogydd ac ansawdd y dirwedd), ac anghenion tai fod o gymorth i ddeall a rhoi arweiniad ar gyfer unrhyw rôl a allai fod gan yr ardal yn y dyfodol o ran datblygu. Caiff gosodiad deniadol yr ardal ei lunio a dylanwedir arno gan ddyffryn yr afon, fel a adlewyrchir yn nynodiad Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Tywi.

6.150 Yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin, mae llawer o'r aneddiadau hyn yn dibynnu ar Gaerfyrddin neu Rydaman / Cross Hands fel y prif ganolfannau ar gyfer arlwyon manwerthu a chyflogaeth mwy.

Llanymddyfri

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.151 Mae Llanymddyfri yn dref farchnad hanesyddol bwysig ar goridor trafniadaeth gynaliadwy, ac mae'n ganolfan wasanaethau sefydledig sydd â rôl bwysig i aneddiadau pellennig.

6.152 Mae'r potensial i'r anheddiad dderbyn lefel o dwf sy'n adlewyrchu hyn yn cael ei gydnabod ond rhaid cydbwysu hynny yn erbyn effaith cyfyngiadau o ran perygl llifogydd a welir yn yr anheddiad ac o'i amgylch, yn ogystal â'i amgylchedd hanesyddol a'i dreftadaeth archeolegol o ansawdd da.

Darpariaeth Fanwerthu

6.153 Mae'r anheddiad yn hanesyddol wedi cyflawni rôl fanwerthu bwysig o ran gwasanaethu cymuned ehangach. A hithau wedi'i chanoli ar ganol tref hanesyddol mae'r

dref farchnad hon yn ymgorffori manwerthwyr sy'n annibynnol a lleol yn bennaf gyda nifer gyfyngedig o siopau cadwyn cenedlaethol.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.154 Dros y blynnyddoedd diwethaf datblygiadau tai ar raddfa fach yn unig a gafwyd yn yr anheddiad ac nid yw'r un o'r dyraniadau yn y CDLI wedi cael ei gyflwyno.

Darpariaeth Cyflogaeth


6.155 Er nad oes gan y dref unrhyw ddyraniadau cyflogaeth newydd yn y CDLI mabwysiedig cyfredol, mae'r dref yn cael budd o ddarpariaeth bresennol gref o ran cyflogaeth sy'n gweithredu fel elfen bwysig o'r economi leol ac ehangach. Mae dros 10 hectar o dir cyflogaeth presennol wedi'i nodi yn Llanymddyfri yn y CDLI gydag ystod o ddefnyddiau gan gynnwys peiriannau a chyflenwadau amaethyddol, cyflenwadau pren a chyflenwadau adeiladwyr, peirianeg arbenigol, gweithgynhyrchu a storio a dosbarthu.

Casgliad

6.156 Nodweddir yr amgylchedd hwn ar gyfer cyflawni, sy'n gryn her, gan ddiffyg cyflawni unrhyw ddyraniadau tai yn y CDLI mabwysiedig.

6.157 Fel a nodir uchod mae lefel y twf yn yr aneddiadau wedi bod yn gyfyngedig gyda'r safleoedd a ddyrannwyd yn peidio â chael eu cyflwyno. Bydd natur a graddfa twf Llanymddyfri yn y dyfodol yn cael eu hadolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth dddosbarthu datblygiadau yn y dyfodol.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Llandeilo (gan gynnwys Ffairfach a Rhosmaen)

Canolfan Wasanaeth

Cymeriad

6.158 Mae Llandeilo yn dref farchnad hanesyddol bwysig ar goridor trafnidiaeth gynaliadwy sy'n cyflawni rôl hirsefydlog fel canolfan wasanaethau – gan gefnogi ei thrigolion a chymunedau'r gefnwlad ehangach ac aneddiadau pellennig.

Darpariaeth Fanwerthu

6.159 Mae gan Landeilo ganolfan fanwerthu sefydledig – mae'r arlwy fanwerthu hon yn darparu ar gyfer gofynion lleol, tra'i bod hefyd yn datblygu enw da am ddarpariaeth o ansawdd sy'n gwasanaethu marchnadoedd arbenigol o ansawdd da. Yn hyn o beth mae'r anheddiad wedi bod yn llwyddiannus o ran sefydlu ei hun fel cyrchfan manwerthu.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.160 O ran cyflawni tai, effeithiwyd ar hyn i ryw raddau yn sgîl dyrannu Ardal y Gogledd yn y CDLI mabwysiedig presennol gyda rhyw 215 o unedau preswyl. Gan fod yn gyfrifol am drwch y dyraniad ar y cyfan o 257 o unedau preswyl, mae hyn yn adlewyrchu rôl a statws yr anheddiad yn hierarchaidd ond mae methu â chyflawni'r dyraniad wedi cwtogi ar gyfleoedd ar gyfer twf yn yr anheddiad hwn.


Darpariaeth Cyflogaeth

6.161 Mae'r Ganolfan Wasanaethau hon yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflogaeth hefyd. Cyflawnir hyn trwy ddarpariaethau presennol, ond hefyd trwy'r ddarpariaeth arfaethedig ar safle Beechwood. Mae hyn yn ategu cyfleoedd i ddiwallu anghenion busnes yn yr ardal ac ymhlith cymunedau cyfagos.

Casgliad

6.162 O ystyried y dadansoddiad uchod, mae Llandeilo'n dref hunangynhaliol gyda'r holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol i'w graddfa. Bydd natur a graddfa datblygiadau a ddyrennir i'r anheddiad yn cael eu hadolygu. Rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i'w rôl o ran cefnogi pentrefi gwledig eraill sy'n agos ato.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Llangadog

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.163 A hithau wedi'i lleoli yn Nyffryn Tywi, caiff Llangadog ei nodi yng Nghynllun Gofodol Cymru fel anheddiad allweddol yng Nghlwtwr Dyffryn Tywi. Mae Llangadog yn hen dref farchnad wledig gryno. Mae'n agos at yr A40 rhwng Llandeilo a Llanymddyfri, gyda mynediad trwy ei gorsaf reilffordd at Reilffordd Calon Cymru.

Darpariaeth Fanwerthu

6.164 Mae'r anheddiad yn cynnig gwasanaeth manwerthu lleol gan gynnwys Swyddfa'r Post, Cigydd, Siop Bapur Newydd a Siop Gyffredinol yn ogystal â gwesty a thafarn mewn canol cryno. Mae hefyd yn cynnwys ystod o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol, gan gynnwys ysgol gynradd (y mae gwelliannau'n cael eu gwneud iddi ar hyn o bryd), gofal iechyd a neuadd gymunedol.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.165 O ran dosbarthu, mae ei rôl a'i safle o fewn y fframwaith aneddiadau ar gyfer y Strategaeth a Ffeirir (er yr ategir hynny gan y gwasanaethau sydd ar gael a'i rôl o ran ei chymunedau cyfagos) yn cael eu cydbwyso â graddfa neu faint yr anheddiad sy'n adlewyrchu ei gymeriad a'i leoliad gwledig. Mae'r CDLI mabwysiedig cyfredol yn cydnabod hyn trwy ddyrannu 37 o unedau dros ddau safle tai sydd wedi'u dyrannu. Fodd bynnag, nodir mai nifer gyfyngedig a gyflawnwyd hyd yma gyda 27 o'r unedau'n dal heb eu datblygu.

Darpariaeth Cyflogaeth


6.166 Nid oes unrhyw dir penodol yn Llangadog wedi'i ddyrannu at ddibenion cyflogaeth yn y CDLI mabwysiedig cyfredol; fodd bynnag, mae gan y dref ddarpariaeth bresennol gref o ran cyflogaeth sy'n gweithredu fel elfen bwysig o'r economi leol ac ehangach. Mae mwy nag 8 hectar o dir cyflogaeth presennol wedi'i nodi ar gyfer Llangadog yn y CDLI, gan gynnwys safle'r hen Hufenfa sydd bellach yn cael ei ddefnyddio i weithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes.

Casgliad

Fel a nodir uchod mae lefel y twf yn yr anheddiad wedi bod yn gyfyngedig; o ganlyniad bydd natur a graddfa twf datblygiadau a ddyrennir i'r anheddiad yn y dyfodol yn cael eu hadolygu

gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth ddsbarthu datblygiadau yn y dyfodol.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Clwstwr 6

6.168 O ystyried cymeriad yr ardal sy'n wledig yn bennaf a'i dwysedd poblogaeth is, y categori a bennwyd ar gyfer y clwstwr hwn yw Haen 2 – Canolfan Wasanaethau ac is.

6.169 Gyda'i gysylltiadau â Gorllewin Cymru, yn draddodiadol mae datblygiadau yn y clwstwr hwn wedi bod yn cael eu canoli ar aneddiadau Sanclêr a Hendy Gwyn ar Daf, sy'n cyflawni'r rolau allweddol fel canolfannau gwasanaethau o fewn y clwstwr hwn ac sy'n cefnogi'r arlwy gymdeithasol a'r arlwy o ran cyflogaeth, addysg a manwerthu lleol ar gyfer yr aneddiadau llai. Mae'r ardal wedi'i chysylltu'n dda â'r rhwydwaith trafniadaeth ehangach trwy'r A40, yr A477 a'r rheilffordd rhwng Llundain ac Abergwaun. Mae gan ogledd orllewin pell y clwstwr gysylltiadau da ar yr A478 â Cheredigion a Sir Benfro.

6.170 Mae ei berthynas â Sir Benfro a'i forlin deniadol yn golygu bod arlwy dwristaidd gref wedi datblygu yn yr anheddiad, gyda Thalacharn a Phentwyn yn gwneud cyfraniad pwysig at yr ymdeimlad cyffredinol o le ac at yr economi ymwelwyr. O ran twristiaeth, mae'r arlwy yn yr ardal gymeriad hon (sy'n seiliedig ar yr arfordir) yn wahanol ar y cyfan i dwristiaeth seiliedig ar weithgareddau yng ngogledd gwledig y Sir a'r atyniadau hynny ar raddfa fwy yng Nghlwestwr 2.

6.171 Yng nghyd-destun Caerfyrddin, mae llawer o'r aneddiadau'n dibynnu ar Gaerfyrddin fel y brif ganolfan ar gyfer arlwyon manwerthu a chyflogaeth mwy.

Sanclêr / Pwll Trap

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.172 Mae Sanclêr wedi'i lleoli'n gynaliadwy yn rhan orllewinol y sir ar y prif rwydwaith trafniadaeth rhwng Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a'r tu hwnt. Mae'n cyflawni rôl bwysig o ran gwasanaethau a darpariaeth, ac yn cefnogi nifer o aneddiadau pellennig. Mae ganddi ystod eang o gyfleusterau a gwasanaethau sy'n gymesur ag anheddiad yn y safle hwn.

Darpariaeth Fanwerthu

6.173 Mae'r arlwy fanwerthu yn Sanclêr wedi'i chanoli'n bennaf o fewn ffiniau canol y dref ac yn canolbwyntio fwy neu lai ar roi darpariaeth leol. Gan ymgorffori cymysgedd o fanwerthwyr cyfleustra a nwyddau cymharol, ceir nifer gyfyngedig o siopau stryd fawr

cenedlaethol. Mae Sanclêr yn dibynnu ar Gaerfyrddin fel y brif arlwy fanwerthu ar gyfer y rhan hon o Sir Gaerfyrddin.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.174 Mae dosbarthiad twf yn gymesur i'r rôl hon, y cyd-destun lleoliadol hwn a'i dueddiad i gyflawni, gyda dim ond 79 o anheddau yn dal heb eu cyflawni o'r 279 a oedd wedi'u dyrannu yn y CDLI mabwysiedig.


Darpariaeth Cyflogaeth

6.175 Mae gan yr anheddiad ddarpariaeth sefydledig o ran cyflogaeth (yn ddarpariaeth bresennol ac arfaethedig), sy'n elwa o'i lleoliad ar yr A40. Mae Caerfyrddin wedi'i lleoli 10 milltir i ffwrdd, ac mae cryn dipyn o'r cyfleoedd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus / y sector gweinyddol / gwasanaethau ar gyfer llafurlu Sanclêr wedi'u lleoli yno.

Casgliad

6.176 O ystyried y dadansoddiad uchod, mae Sanclêr yn dref hunangynhaliol gyda'r holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol i'w graddfa. O ystyried ei lleoliad strategol, mae'n dref bwysig ar gyfer datblygu tai a chyflogaeth newydd, a bydd graddfa'r datblygiadau hyn yn cael ei hadolygu fel rhan o broses y CDLI diwygiedig. Rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i'w rôl bwysig o ran cefnogi pentrefi eraill sy'n agos ati.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Hendy Gwyn ar Daf

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.177 Mae Hendy Gwyn ar Daf (fel a adlewyrchir yng Nghynllun Gofodol Cymru) yn cyflawni rôl canolfan wasanaethau mewn lleoliad trawsffiniol pwysig. Mae Hendy Gwyn ar Daf, sydd wedi'i lleoli'n gynaliadwy ar goridor trafniadaeth allweddol rhwng Sir Benfro, Caerfyrddin a'r tu hwnt, yn cyflawni rôl bwysig o ran gwasanaethau ar gyfer nifer o aneddiadau pellennig bach. Mae gan y dref orsaf reilffordd sydd wedi'i lleoli ar y llinell reilffordd rhwng Abergwaun a Paddington.

Darpariaeth Fanwerthu

6.178 Mae'r anheddiad yn darparu arlwy fanwerthu bwysig sy'n gwasanaethu'r gymuned leol ac ehangach trwy gymysgedd o ddarpariaeth gyda chanol y dref yn bennaf yn cynnwys manwerthwyr annibynnol a lleol gyda chynrychiolaeth o blith siopau cenedlaethol yn gyfyngedig i fanwerthwyr cyfleustra.

6.179 Mae Hendy Gwyn ar Daf yn dibynnu ar Gaerfyrddin fel y brif arlwy fanwerthu ar gyfer y rhan hon o Sir Gaerfyrddin, tra bo Arberth a'i marchnadoedd lleol arbenigol yn gwasanaethu'r dref hefyd.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.180 Ystyrir bod dosbarthiad twf o fewn y CDLI mabwysiedig cyfredol yn gymesur â'i rôl a'i swyddogaeth, gyda 118 o'r 205 o unedau preswyl heb gael eu cyflawni.

Darpariaeth o ran Twf Cyflogaeth


6.181 Mae gan yr anheddiad ddarpariaeth sefydledig o ran cyflogaeth (yn ddarpariaeth bresennol ac arfaethedig), sy'n elwa o'i lleoliad ar yr A40.

Casgliad

6.182 O ystyried y dadansoddiad uchod, mae Hendy Gwyn ar Daf yn dref hunangynhaliol gyda'r holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol i'w maint. O ystyried ei lleoliad strategol, mae'n dref bwysig ar gyfer datblygu tai a chyflogaeth newydd. Er y bydd natur a graddfa'r datblygiadau a ddyrennir i'r anheddiad yn cael eu hadolygu, mae'n arddangos cyfradd cyflawni resymol a bydd y cyfleoedd i sicrhau cyflawni parhaus a gwell yn cael eu

hystyried ymhellach. Fodd bynnag, byddir yn cyfeirio at y cyfyngiadau sy'n deillio o leoliad rhannol yr anheddiad mewn ardaloedd lle canfuwyd perygl llifogydd.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Talacharn

Canolfan Wasanaethau

Canolfan Wasanaethau

Cymeriad

6.183 Caiff Talacharn ei chydabod fel canolfan leol yng Nghynllun Gofodol Cymru sy'n cyfrannu fel canolfan dwristiaeth arwyddocaol. Mae'r anheddiad yn darparu ar gyfer manwerthu lleol ac anghenion eraill ar y cyd â chyfleusterau cymunedol gan gynnwys ysgol gynradd, darpariaeth gofal ieuchyd, tafarndai, a gwestai a thai llety.

Darpariaeth Fanwerthu

6.184 Mae'r anheddiad yn arddangos darpariaeth fanwerthu leol sy'n cynnwys siop fwyd leol. Mae cryn dipyn o'r arlwy fanwerthu wedi'i chanoli ar dwristiaeth a diwylliant.

Darpariaeth o ran Twf Tai

6.185 Gwelwyd cyfradd araf yn yr anheddiad o ran twf tai gyda'r ddau ddyraniad sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI mabwysiedig cyfredol heb eu cyflawni eto.

Darpariaeth Cyflogaeth


6.186 Er nad oes darpariaeth cyflogaeth wedi'i nodi o fewn yr anheddiad, nid yw hyn yn anghyson â'i gymeriad ac â'i gyfraniad economaidd sydd wedi'i ganoli ar dwristiaeth a diwylliant.

Casgliad

6.187 Mae lleoliad arfordirol Talacharn, ei chadwraeth natur, ei hamgylchedd hanesyddol a'i hetifeddiaeth ddiwylliannol yn ogystal â'i phriod gyfyngiadau o ran perygl llifogydd i gyd yn faterion sy'n dylanwadu ar ei photensial i dderbyn twf.

6.188 Bydd natur a graddfa twf Talacharn yn y dyfodol yn cael eu hadolygu gyda rôl gefnogol cymunedau cyfagos yn ystyriaeth hefyd wrth ddsbarthu datblygiadau yn y dyfodol.

Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol



Haen 3 – Pentrefi Cynaliadwy

6.189 Mae Pentrefi Cynaliadwy, yn ôl eu hunion natur, yn amrywio o ran math a swyddogaeth, ac maent yn aml yn adlewyrchu amrywiaeth y Sir. Mae Drafft y Strategaeth a Ffeirir yn cydnabod rôl aneddiadau llai o'r fath a'u cyfraniad at greu cymunedau cynaliadwy.

6.190 Mae llawer o'r aneddiadau a nodir fel Pentrefi Cynaliadwy y Nrafft y Strategaeth a Ffeirir wedi'u diffinio'n Gymunedau Cynaliadwy o fewn y CDLI mabwysiedig cyfredol. Caiff cyfraniad aneddiadau o'r fath ei adlewyrchu yn yr Adroddiadau Blynyddol, gyda dadansoddiad o Adroddiad Monitro Blynyddol 1 yn nodi bod 15% o'r tai y rhoddyd caniatâd i'w hadeiladu ar safleoedd mawr (+5 uned) yn ystod 2015/16 mewn Cymunedau Cynaliadwy. Tyfodd y ffigwr hwn i 46% yn ystod Adroddiad Monitro Blynyddol 2 (2016/2017).

6.191 Wrth ystyried chwe chlwtwr yr hierarchaeth aneddiadau ar gyfer Sir Gaerfyrddin, defnyddir y sail resymegol ganlynol i ategu penderfyniadau i gynnwys aneddiadau yn Haen 3 yn eu priod glystyrau.

Clwtwr 1

6.192 Mae'r pentrefi cynaliadwy yng Nghlwtwr 1 yn dibynnu ar Gaerfyrddin i gyflawni'r rôl fel canolfan wasanaethau allweddol, gyda chyflleoedd cyflogaeth yn y dref. Gall y pentrefi cynaliadwy hyn ddarparu cartrefi ar gyfer gweithwyr y cyflogwyr hyn, yn ogystal â gweithredu fel cymunedau hunangynhaliol yn eu rhinwedd eu hunain. Mae gan y pentrefi potensial datblygu o fewn y clwtwr hwn, ac maent yn darparu ar gyfer amrywiaeth yn y farchnad dai, sy'n ategu'r datblygiadau ar raddfa fawr a welir yng Nghaerfyrddin ac yn wahanol iddynt.

6.193 Mae llawer o'r pentrefi cynaliadwy hyn wedi'u lleoli ar lwybrau trafnidiaeth allweddol (e.e. yr A48, yr A40, yr A484, yr A485) hefyd ac yn meddu ar ymdeimlad cryf o le a hunaniaeth Gymreig. Cyfeirir hefyd at eu cyfraniad posibl o ran twristiaeth, yn fwyaf nodedig o fewn yr aneddiadau hynny sydd wedi'u lleoli ar yr arfordir (Llansteffan), yn ogystal â'r rhai i'r gogledd (e.e. twristiaeth gweithgareddau ym Mrechfa), a darparu cymysgedd amrywiol a chyfrannu at yr arlwy ar y cyfan.

Clwtwr 2

6.194 O ran Clwtwr 2, mae'r pentrefi cynaliadwy hyn yn dibynnu ar Lanelli yn ogystal â Llain Arfordirol Bae Abertawe y tu hwnt i hynny. Mae Mynyddygarreg a Phum Hewl yn ffafriol i

dderbyn lefel briodol o ddatblygu, gyda Mynyddygarreg yn arbennig yn meddu ar farchnad dai ffyniannus. Mae wedi bod â rôl allweddol o ran cefnogi Cydweli ar hyd coridor yr A484. Mae Mynyddygarreg a Phum Hewl yn meddu ar ymdeimlad o le gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer bywyd pentref ond yn agos at ganolfannau cyflogaeth allweddol (gan gynnwys Llanelli).

6.195 Mae Llansaint / Broadway yn darparu gosodiad deniadol sy'n cefnogi Glanyfferi ac ardal ehangach Aber Afon Tywi o ran potensial economi ymwelwyr y Sir.

Clwstwr 3

6.196 Mae'r pentrefi cynaliadwy yng Nghlwstwr 3 yn dibynnu ar Rydaman / Cross Hands o fewn ardaloedd hen faes glo'r cwm gorllewinol, sef Aman a'r Gwendraeth.

6.197 Mae Llannon a Llanedi hefyd mewn sefyllfa i gefnogi prif ganolfannau Llanelli a Rhydaman / Cross Hands, a bydd unrhyw dwf yn y dyfodol yn ystyried hyn.

6.198 Mae Cwmgwili, Maesybont a Foelgastell yn arddangos ymdeimlad cryf o le o ran bywyd pentref a ffabrig cymdeithasol, tra bo'r farchnad dai yn yr ardaloedd hyn wedi bod yn weddol ffyniannus. Er bod cryn dipyn o'r ardal hon yn ôl-ddiwydiannol yn hytrach na gwledig, mae hefyd yn gadarnle allweddol i'r Gymraeg yn y Sir.

6.199 O ran aneddiadau mwy yn ardal Dyffryn Aman, maent yn cynnig yr holl wasanaethau a chyfleusterau sy'n ofynnol mewn pentref cynaliadwy, ond maent hefyd yn dibynnu ar aneddiadau trawsffiniol mwy.

Clwstwr 4

6.200 Mae'r pentrefi cynaliadwy yng Nghlwstwr 4 wedi'u lleoli yng ngogledd orllewin y Sir yn bennaf ar Goridor Dyffryn Teifi. Mae ganddynt rôl gefnogol mewn perthynas â Chastell-newydd Emlyn, Llanybydder a Phencader. Mae'r pentrefi cynaliadwy hyn yn bennaf yn wledig o ran natur, ac mae gan rai rôl drawsffiniol bwysig – yn anad dim gyda Cheredigion.

6.201 At ei gilydd, ac yn debyg i'r Canolfannau Gwasanaethau yn y clwstwr hwn, mae'r pentrefi cynaliadwy'n dibynnu ar Gaerfyrddin fel y brif ganolfan bennaf ar gyfer manwerthu, a chyfleoedd gwaith y tu allan i amaethyddiaeth. Bydd graddfa dosbarthiad y twf ar y cyfan o fewn pob anheddiad, a maint y safleoedd ym mhob anheddiad yn ystyriaeth bwysig, yn enwedig o ran cefnogi'r Gymraeg, a mynd i'r afael â her taro cydbwysedd rhwng cyfleusterau

a gwasanaethau gwledig sy'n lleihau ar y naill law a'r pwyslais ar gadw cymunedau bywiog ar y llaw arall.

Clwstwr 5

6.202 Mae'r pentrefi cynaliadwy hynny yng Nghlwstwr 5 wedi'u lleoli'n bennaf yng ngogledd ddwyrain y Sir ar Goridor Dyffryn Tywi. Maent yn cyflawni rôl gefnogol mewn perthynas â Llandeilo, Llanymddyfri a Llangadog ac mae ganddynt hefyd rôl drawsffiniol gyda Phowys ac yn nodedig gyda Bannau Brycheiniog. Mae'r pentrefi cynaliadwy hyn yn wledig yn bennaf o ran natur ac wedi'u gwasgaru dros ardal fawr, sy'n golygu bod rhywfaint o hunangynhaliaeth yn ofynnol o ganlyniad. O ganlyniad mae gan yr aneddiadau hyn hunaniaeth gref ac ymdeimlad cryf o le.

6.203 Yn debyg i'r Canolfannau Gwasanaethau yn y clwstwr hwn, mae'r pentrefi cynaliadwy'n dibynnu ar Gaerfyrddin a Rhydaman / Cross Hands fel y prif ganolfannau pennaf ar gyfer manwerthu, a chyfleoedd gwaith y tu allan i amaethyddiaeth. Bydd graddfa dosbarthiad y twf ar y cyfan o fewn pob anheddiad, a maint y safleoedd ym mhob anheddiad yn ystyriaeth bwysig, yn enwedig o ran taro cydbwysedd rhwng yr anghenion twf ar y naill law a'r angen i ddiogelu'r amgylchedd ar y llaw arall.

Clwstwr 6

6.204 Mae'r pentrefi cynaliadwy yng Nghlwstwr 6 wedi'u lleoli'n bennaf yng ngorllewin y Sir ar y porth i Orllewin Cymru. Maent yn cyflawni rôl gefnogol mewn perthynas â Sanclêr, Hendy Gwyn ar Daf a Thalacharn ac mae ganddynt hefyd rôl drawsffiniol – yn anad dim gyda Sir Benfro. Mae llwybrau'r A40 a'r A477 yn nodwedd allweddol i'r ardal hon, ac yn cynnig cyfleoedd twristiaeth amrywiol, yn enwedig ar hyd y forlin.

6.205 Yn debyg i'r Canolfannau Gwasanaethau yn y clwstwr hwn, mae'r pentrefi cynaliadwy'n dibynnu ar Gaerfyrddin fel y brif ganolfan bennaf ar gyfer manwerthu, a chyfleoedd gwaith y tu allan i amaethyddiaeth. Bydd graddfa dosbarthiad y twf ar y cyfan o fewn pob anheddiad, a maint y safleoedd ym mhob anheddiad yn ystyriaeth bwysig, yn enwedig o ran taro cydbwysedd rhwng yr anghenion twf ar y naill law a'r angen i ddiogelu'r amgylchedd ar y llaw arall.

6.206 Un o'r ystyriaethau mewn perthynas â'r clwstr hwn yn y dyfodol fydd goblygiadau newidiadau yn y Bwrdd Iechyd Lleol a datblygiad posibl ysbyty newydd. Bydd yr aneddiadau cynaliadwy yn y clwstr hwn yn cefnogi amrywiaeth y mathau o dai o fewn y farchnad dai.

Haen 3 - Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol

	Cyfleusterau									Gynradd								Gwasanaethau Pellach					
	Addysg Bellach	Addysg Uwchradd	Ysbyty	Canolfan Hamdden	Manwerthu / Canol Tref	Parc Manwerthu	Banc / Cymdeithas Adeiladu	Rhwydwaith Priffyrdd Strategol	Safleoedd Cyflogaeth	Ysgol Gynradd	Supermarket	Swyddfa'r Post	Canolfan Iechyd / Meddygfa	Llyfrgell	Canolfan Gymunedol	Fferyllfa	Rhwydwaith Priffyrdd Lleol	Trafnidiaeth Gyhoeddus	Cyfleusterau Chwarae / Maes Chwarae	Siop Leol	Tafarn	Man Addoli	
Clwstwr 1																							
Cynwyl Elfed																							
Llan-y-bri																							
Llansteffan																							
Bronwydd																							
Cwmffrwd																							
Llangyndeyrn																							
Brechfa																							
Llangain																							

Idole / Pentrepoeth	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Green	Red	Red	Red	Red
Peniel	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Red	Green
Alltwalis	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Green	Green
Llanpumsaint	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Green	Green
Llandyfaelog	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Red	Green
Rhydargaeau	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Green	Red	Green	Red	Green
Llanarthne	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Green	Green
Capel Dewi	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Red	Red
Nantgaredig	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Red	Red	Green	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Green	Green
Pontargoithi	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Red	Green
Llanddarog	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Green	Green
Porthyrhyd	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Green	Green
Cwmduad	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Red	Green
Clwstwr 2	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue
Mynyddygarreg	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Red	Green
Pum Heol / Horeb	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Green	Green
Llansaint / Broadway	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Green	Green

Clwstwr 2 & 3																									
Llan-non																									
Llanedi																									
Clwstwr 3																									
Carmel																									
Cwmgwili																									
Foelgastell																									
Ystradowen																									
Clwstwr 4																									
Drefach / Felindre																									
Waungilwen																									
Llangeler																									
Pentrecwrt																									
Saron / Rhos																									
Llanllwni																									
Cwmann																									
Capel Iwan																									
Llanfihangel ar arth																									

Trelech	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Red	Green	Green
Pontyweli	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Red	Green	Green	Green
Cenarth	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Green	Green	Green	Green
New Inn	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Red
Clwstwr 5	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue
Caio	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Green	Green	Red	Green	Green	Green	
Ffarmers	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Red	Red	Green	Red	Red	
Llansawel	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Green	Green	Red	Green	Green	Green	
Rhydcymerau	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Green	Green	Red	Red	Green	Green	
Talyllychau	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Green	Green	Red	Red	Green	Green	
Cwrt Henri	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Green	Green	Green	Green	
Llanfynydd	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Green	Red	Red	Green	Green	Green	
Llanwrda	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Green	Red	Green	Green	
Cwmdu	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Red	Red	Green	Green	Red	Green	Green	Green	Green	
Cwmifor	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Green	
Salem	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Red	Red	Red	Red	Green	
Abergorlech	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Green	Red	Green	Green	
Clwstwr 6	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	Blue	
Llanboidy	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Red	Green	Red	Green	Red	Red	Green	Red	Green	Green	Green	Green	Green	Green	Green	

Haen 4 – Pentrefi Gwledig

6.207 Mae pentrefi gwledig yn cynrychioli'r aneddiadau hynny sy'n gwneud cyfraniad llai, ond eto un pwysig o fewn eu cymuned. Mae'r rhain yn aml yn aneddiadau a fydd wedi arddangos rhai gwasanaethau a chyfleusterau yn y gorffennol, ond o bosib, nad ydynt yn bodoli bellach. Felly, er y gellir dadlau bod eu rôl a'i swyddogaeth wedi lleihau, maent yn dal i gynrychioli cymunedau sefydledig sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer cartrefi newydd priodol ar raddfa fach mewn lleoliadau gwledig. Mae'r fath darpariaeth yn gwneud cyfraniad pwysig i ardaloedd gwledig, eu cymunedau ac yn wir yw economïau.

